



**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

**Cyfiawnder Chwim a Chadarn:
Cynlluniau'r Llywodraeth ar
gyfer Diwygio'r System
Cyfiawnder Troseddol**

Gorffennaf 2012



Cyfiawnder Chwim a Chadarn: Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2012

© **Hawlfraint y Goron 2012**

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl a hynny ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: Diwygio Cyfiawnder Troseddol, Pwynt Post 8.02, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Llundain SW1H 9AJ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101838825

Argraffwyd y ddogfen yn y Deyrnas Unedig gan Y Llyfrfa Cyf ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ID 2501130 07/12

Fe'i hargraffwyd ar bapur sydd ag o leiaf 75% o'i ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	5
1. Rhagarweiniad	12
2. Rhaglen diwygio ehangach y Llywodraeth	21
3. Cyfiawnder chwim	29
4. Cyfiawnder cadarn	37
5. Cyfiawnder effeithlon drwy ddefnyddio technoleg	46
6. Cyfiawnder tryloyw	55
7. Cyfiawnder atebol	59
8. Asesu Effaith ac Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	64

**Cyfiawnder Chwim a Chadarn:
Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol**

Rhagair



Un o egwyddorion sylfaenol cyfiawnder yw y dylid ei weinyddu'n ddi-oed. Yn ôl y Magna Carta "ni wrthodir nac iawn na chyfiawnder i neb, ac ni fydd oedi wrth ei weinyddu." Nid cyfiawnder yw cyfiawnder araf, yn enwedig i ddioddefwyr troseddau.

Eto i gyd, bydd ein system cyfiawnder troseddol yn goddef oedi o hyd. Ar gyfartaledd, bydd pum mis yn mynd heibio rhwng trosedd a dedfryd mewn llys ynadon. Mae'n ddealladwy bod angen

amser i baratoi achosion cymhleth. Ond mân achosion yw'r rhan fwyaf helaeth, nid oes yn rhaid iddynt fynd i dreial, neu nid oes neb yn eu gwrthwynebu. Nid oes rheswm pam na chaiff y rhain eu dwyn gerbron cyfiawnder yn gyflymach o lawer.

Mae cyfiawnder chwim o fudd i ddioddefwyr, i dystion ac i'r cyhoedd. Digwyddodd hyn wrth ymateb i'r anhrefn yr haf diwethaf. Bu'r heddlu, yr erlynywyr a'r llysoedd yn cydweithio — a dygwyd troseddwyr gerbron cyfiawnder o fewn dyddiau, o fewn oriau weithiau hyd yn oed.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn disgrifio uchelgais a chynllun clir iawn er mwyn normaleiddio llawer o'r ymateb hwn, a sicrhau mai'r drefn arferol yw cyfiawnder chwim a chadarn. Mae'n dangos sut yr ydym eisoes yn defnyddio technoleg yn well ac yn rheoli ein hachosion yn fwy effeithlon. Mae'n disgrifio hefyd ein cynigion ar gyfer rôl newydd i ynadon, gan atgyfnerthu eu rôl hanesyddol ym maes cyfiawnder cymunedol.

Yr ynadaeth leyg yw un o gaffaeliaid pwysicaf ein system cyfiawnder troseddol a dylem roi gwerth mawr ar ei rôl. Rwyf am roi rolau a chyfrifoldebau newydd i ynadon, gan gynnwys goruchwyllo sut yr ymdrinnir ag achosion y tu allan i'r llys a chefnogi'r Panelau Cyfiawnder Cymdogaeth newydd.

Bydd y rôl gryfach hon i ynadon yn gymorth hefyd i sicrhau cyfiawnder cadarn fel rhan o'n huchelgais i greu system sy'n mynd i'r afael â throseddwyr yn fuan yn y broses. Drwy fod yn glyfar wrth ymdrin â throseddu, gallwn atal pobl rhag llithro i gyflawni troseddau mwy a mwy difrifol.

O fis Tachwedd ymlaen, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn sefyllfa unigryw i helpu i symbylu'r heddlu lleol, yr erlyniad a'r llysoedd i gydweithio a chanolbwyntio ar atal troseddu a lleihau aildroseddu. Bydd y system hefyd yn cael ei gwneud yn fwy atebol a thryloyw. O allu cael gafael ar wybodaeth go iawn, bydd y cyhoedd mewn sefyllfa well o lawer i sbarduno newid a bydd yn ymddiried mwy mewn system a ddylai weithio iddynt hwy.

**Cyfiawnder Chwim a Chadarn:
Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol**

Rydym yn symud oddi wrth 'system' a oedd yn gweithio mewn cylchoedd ynysig at wasanaeth cyfiawnder troseddol lle bydd yr heddlu, yr erlyniad a'r llysoedd yn cydweithio'n fwy effeithiol. Ni fydd dim o'r diwygiadau hyn yn peryglu hawliau cyfreithiol hanesyddol nac egwyddorion cyfiawnder pwysig. Yn hytrach, y gwrthwyneb fydd yn wir: rhaid i gyfiawnder fod yn chwim, yn gadarn a rhaid iddo gael ei weld yn cael ei weinyddu. Fel arall, nid cyfiawnder mohono o gwbl.

Nick Herbert

Gweinidog Gwladol plismona a chyfiawnder troseddol

Crynodeb Gweithredol

Rhagarweiniad

Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro rhaglen diwygiadau'r Llywodraeth i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Ymateb ydyw'n rhannol i ymrwymiad Prif Weinidog Prydain y llynedd i ddysgu'r gwersi yn sgil yr ymateb hynod effeithiol a chyflym a welwyd gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol i helyntion yr haf diwethaf. Mae'r Papur yn egluro'r rhaglenni diwygio sydd eisoes ar waith ledled y gwasanaethau cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael ag oedi a gwastraff, i gryfhau atebolrwydd a thryloywder ac i wella ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl i'r system cyfiawnder fod yn chwim ac yn gadarn:

- yn chwim: fel bod yr achosion lefel-isel, syml a diwrthwynebiad, lle mae'n briodol ymateb yn gyflym, yn cael eu trin yn ddi-oed ac yn effeithlon; ac
- yn gadarn: fel y gellir dibynnu ar y system i gosbi a gwneud iawn yn deg ac yn unol â'r gyfraith a disgwyliadau'r cyhoedd. Mae system cyfiawnder troseddol sy'n methu â sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd fel hyn wedi baglu dros y glwyd gyntaf.

Ein diagnosis o'r problem

Yn rhy aml, yng ngolwg y cyhoedd, mae'r system cyfiawnder troseddol yn gymhleth ac yn bell, a'i phrosesau i bob golwg yn niwlog. Yn lle gadael i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'u crebwyll, aethpwyd ar drywydd targedau, ac mae hyn wedi tynnu sylw ymarferwyr oddi ar sicrhau'r canlyniadau gorau drwy ddefnyddio'u sgiliau a'u profiad.

Mae angen moderneiddio'r system, ei seilweithiau hen ffasiwn sydd wedi dyddio a'i ffyrdd o weithio sy'n gweddu i'r system yn hytrach nag i'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Mae olwynion cyfiawnder yn rhygnu'n rhy araf. Yn rhy aml, bydd y system yn goddef gwaith diangen a gwrandawladau na fyddant yn cael eu cynnal mewn pryd.

Mae hyn yn costio'n ddrud i'r trethdalwr: dros £20 biliwn bob blwyddyn. Mae cyfran fawr o'r swm hwn yn cael ei wario ar brosesu troseddwyd, yn hytrach nag ar ymyriadau cynnar sydd wedi'u targedu ac sy'n helpu i atal problemau rhag gwaethygu.

Bydd llawer o'r rheini sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol neu ar ei chyrion yn gyfarwydd â'r problemau hyn ac maent yn wir am weld pethau'n gwella. Dangosodd yr ymateb i'r helyntion y llynedd yr hyn a oedd yn bosibl: ymateb cyflym a hyblyg, gweinyddu cyfiawnder mewn ambell achos ymhen ychydig oriau a diwrnodau, yn hytrach nag ymhen wythnosau a misoedd.

Yn y Papur Gwyn hwn, dywedwn sut y bwriadwn ddiwygio cyfiawnder troseddol drwy:

- greu system cyfiawnder chwim a chadarn;
- ei gwneud yn fwy tryloyw, atebol ac ymatebol i anghenion lleol.

Fel hyn, byddwn yn gwednewid cyfiawnder troseddol ac yn troi **system** ddarniog sydd heb ei chydlynu yn **wasanaeth** di-fwlch ac effeithlon.

Cyfiawnder chwim

Mae angen i gyfiawnder fod **yn chwim** er mwyn iddo fod yn effeithiol. Mae angen gwneud i droseddwyr wynebu canlyniadau eu gweithredoedd yn ddi-oed, gan ddefnyddio atebion lleol sy'n effeithiol.

Rydym am sicrhau bod achosion yn barod i fynd rhagddynt yn gyflym ac yn unol â'r cynllun. Mae ein diwygiadau'n canolbwyntio ar y materion syml, uniongyrchol a diwrthwynebiad hynny, sef y mwyafrif helaeth o'r achosion a erlynir drwy'r llysoedd troseddol. Bwriedir i'n diwygiadau sicrhau bod pobl yn pledio'n euog yn gynharach yn y broses erlyn, gan wella effeithlonrwydd, lleihau'r gwaith papur a'r amserau prosesu a lliniaru rhywfaint o'r baich ar dystion a dioddefwyr troseddau.

Mae'r farnwriaeth yn rhoi dwy raglen ddiwygio ar waith i gryfhau'r ffordd y rheolir achosion drwy'r llysoedd – y cynllun *Pledio'n Euog yn Gynnar* ar gyfer achosion Llys y Goron ac *Atal Oedi mewn Cyfiawnder* yn llysoedd yr ynadon Nod y rhain, lle y rhagwelir y bydd rhywun yn pledio'n euog, yw gyrru'r achos i'r trac cyflym, sy'n golygu y bydd angen gwneud llai o waith ar yr achosion hyn ac y bydd modd eu cwblhau'n gyflymach ac yn rhatach o lawer. Byddwn yn cefnogi'r Farnwriaeth i ledaenu'r cynlluniau hyn yn genedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau'n iawn ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Byddwn hefyd yn symleiddio ac yn estyn erlyniadau sy'n cael eu tywys gan yr heddlu. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ogystal â'r pwerau sydd gan yr heddlu eisoes i erlyn troseddau trafndiaeth lefel-isel, y byddwn yn cyflwyno newidiadau i alluogi'r heddlu i barhau i erlyn yr achosion hyn lle na fydd rhywun yn pledio, neu lle na fydd y diffynnydd yn ymddangos, gan osgoi gohiriadau diangen a throsglwyddo achosion i Wasanaeth Erlyn y Goron. Byddwn hefyd yn estyn y dull symlach hwn, o dan arweiniad yr heddlu, i ystod ehangach o droseddau lefel-isel.

Mae'n rhaid i'r system cyfiawnder troseddol ymateb hefyd i ofynion a blaenoriaethau lleol, boed y rheini'n eithafion yr helyntion, yn ddigwyddiadau lleol, ynteu'n ymgyrchoedd sydd wedi'u cynllunio gan yr heddlu. Bydd hyd at 100 o lysoedd yr ynadon yn eistedd ar ddydd Sadwrn ac ar Wyliau Banc, gan leihau oedi a gweinyddu cyfiawnder chwim, cadarn a hyblyg. Byddwn yn parhau i roi dulliau arloesol ar brawf o ran amserau eistedd y llysoedd, yn pwysu a mesur rhagoriaethau cael eisteddiadau mwy hyblyg, gan gynnwys eistedd yn gynnar yn y bore, eistedd gyda'r nos a thros y penwythnos, ar gyfer gwahanol fathau o wrandawiadau.

Rydym hefyd yn chwilio am ragor o gyfleoedd i roi egwyddorion diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar waith wrth ddarparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys agor y drws at y gwasanaethau i ddarparwyr newydd a chyflwyno dulliau cyflawni amgen, gan gynnwys ffurfiau newydd ar bartneriaeth gyda'r sector preifat a chwmnïau cydfuddiannol. Bydd hyn yn adeiladu ar sail yr hyn a gyflawnwyd eisoes gyda gwasanaethau rheoli troseddwr, er enghraifft, drwy'r rhaglenni peilot 'talw ar sail canlyniadau' yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy.

Mae'r rhain yn gynlluniau uchelgeisiol a fydd yn help i weinyddu cyfiawnder yn fwy chwim.

Cyfiawnder cadarn

Serch hynny, nid yw sicrhau cyfiawnder chwim yn ddigon. Rhaid i gyfiawnder fod yn **gadarn** hefyd, yn yr ystyr ei fod yn sicrhau ymddiriedaeth y cyngor, os yw am ddarparu cosbau a dulliau atal effeithiol. Rhaid i wasanaethau cyfiawnder troseddol wneud rhagor i gael gafael cadarn ar droseddwr, gan wneud iddynt wynebu canlyniadau eu troseddu, a chymryd camau sy'n eu cosbi hwy ac yn eu helpu i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

Rydym eisoes wedi cyflwyno diwygiadau i wneud carchardai'n fannau gwaith ystyrion ac rydym wedi rhestru ein cynigion i gynnwys elfen o gosb ym mhob dedfryd gymunedol. Rydym yn rhoi egwyddor talu ar sail canlyniadau ar brawf. Mae rhaglen o gynlluniau peilot ar waith sy'n rhoi ystod o wahanol ddulliau ar brawf lle bydd y rheini sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu i droseddwr yn cael eu talu ar sail i ba raddau maent yn llwyddo i leihau aildroseddu. Yn achos cynlluniau peilot i ailfuddsoddi mewn cyfiawnder, os arbedir arian yn y system, ailfuddsoddir yr arian. Mae hyn yn darparu llwyfan ar gyfer cyflwyno mwy o amrywiaeth wrth gyflenwi'r gwasanaethau hyn, gan ddefnyddio'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a dulliau arloesol i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Un enghraifft dda o'r dull hwn o weithio yw'r Panelau Cyfiawnder Cymdogaeth, sy'n cael eu sefydlu mewn 15 ardal. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol ac maent yn defnyddio technegau cyfiawnder adferol i gael gafael cadarn a chynnar ar droseddu, gan atal problemau rhag gwaethygu'n ddiangen.

Mae'r cynnydd digynsail yn nifer y sancsiynau y tu allan i'r llys a ddefnyddir (er enghraifft rhybuddiadau a hysbysiadau cosb ar gyfer anhrefn) wedi codi pryderon ynglŷn ag a yw'r rhain wedi cael eu defnyddio'n briodol. Felly, rydym yn datblygu'r Prawf Cyfiawnder a fydd yn arf buddiol i helpu gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'u crebwyll mewn ffordd deg a chyson.

Rydym hefyd wedi dechrau edrych yn fwy sylfaenol ar sut y darperir y cyfiawnder diannod hwnnw, er mwyn iddo sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Y materion llai difrifol, cymharol syml a'r rheini'n aml yn ddiwrthwynebiad yw'r rhain, materion y bydd ynadon ar hyd ac ar led y wlad yn ymdrin â hwy bob dydd. Rydym yn benderfynol o adeiladu ar sail cyfraniad pwysig ynadon sydd wedi bod yn un o nodweddion ein system cyfiawnder ers canrifoedd. Bydd y

diwygiadau yr ydym yn eu cynnig yn meithrin cysylltiad ag ynadon ac yn ffrwyno'u potensial, gan sicrhau bod ganddynt unwaith eto rôl ganolog yn eu cymunedau. Rydym yn datblygu cynigion i rymuso un ynad sy'n eistedd ar ei ben ei hun i ymdrin ag achosion lefel-isel, diwrthwynebiad penodol, a hynny, weithiau, y tu allan i adeiladau traddodiadol y llysoedd.

Mae'r dull cymunedol hwn yn ategu'r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.¹ Rydym yn awyddus i gymunedau weld bod camau cyflym ac effeithiol ar waith, ond rydym am fynd ymhellach na hynny a chynnwys y gymuned wrth lunio'r camau hyn. Mae cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n enghraifft arall o newid sylfaenol o ran polisi a fydd yn cyfrannu at sicrhau cyfiawnder cadarn, gan wneud yn siŵr ar yr un pryd bod y camau diogelu priodol ar waith i sicrhau annibyniaeth y farnwriaeth ac erlynwyr.

Mae achosion troseddu'n gymhleth a bydd teuluoedd sydd â hanes troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn wynebu nifer o broblemau eraill sy'n gofyn am ymateb gan ystod o wasanaethau cyhoeddus. Un enghraifft o'r canolbwyntio hwn ar gydweithredu yw ein gwaith gyda *Theuluoedd Trwblus*. Mae'r cynllun hwn yn buddsoddi bron £450 miliwn dros dair blynedd ac mae'n targedu'r 120,000 o deuluoedd mwyaf trwblus. Bydd hyn o gymorth i gael plant oddi ar y strydoedd ac i'r ysgol, i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc ac o gymorth hefyd i oedolion ddod oddi ar fudd-daliadau a dilyn llwybr yn ôl i'r gwaith.

Nid rhywbeth yn lle'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol yw'r hyn yr ydym yn ei gynnig, ond dychwelyd pŵer a chyfrifoldeb mewn ffordd gytbwys i gymunedau er mwyn datrys troseddau llai difrifol yn gyflym ac yn drwyadl.

Cyfiawnder effeithlon

Rydym am sicrhau bod seilwaith y system cyfiawnder troseddol yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Er bod symiau sylweddol o arian wedi'u buddsoddi mewn prosiectau TG dros y degawd diwethaf, nid yw'r cyhoedd wedi gweld digon o fudd yn sgil y buddsoddiadau sylweddol hyn. Gwelwyd oedi difrifol gyda rhaglenni LIBRA a C-NOMIS, er enghraifft. Gwariwyd mwy na'r gyllideb ac ni ddarparwyd yr holl nodweddion a addawyd. A'i rhoi'n syml, nid oedd y systemau'n cydblethu'n dda ar draws yr asiantaethau, a chanlyniad hyn oedd atgyfnerthu dulliau gweithio ynysig a chreu gwastraff.

Byddwn yn ceisio defnyddio'r hyn sydd gennym i'r eithaf gan ddatblygu'r buddsoddiadau hyn mewn technoleg i gydgyssylltu darparu gwasanaethau, a symud oddi wrth system araf ar bapur. Rydym wedi gweld cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r heddluoedd bellach yn defnyddio ffeil achos ddigidol wrth

¹ *Rhoi Dioddefwyr yn Gyntaf- Ymatebion Mwy Effeithiol i Ymddygiad Gwrthgymdeithasol*, Cm 8367, Y Swyddfa Gartref, Mai 2012.

baratoi achosion nad ydynt yn achosion cadw dan glo. Mae erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dechrau defnyddio dyfeisiau tabled i erlyn achosion yn y llys agored; ac fe all pob llys ynadon dderbyn ffeiliau achos digidol gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Cam nesaf y diwygio fydd ehangu, plannu a chynnal y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol er mwyn i'r ffeiliau achos digidol gael eu defnyddio'n rheolaidd mewn achosion cyfiawnder troseddol.

Rydym yn buddsoddi er mwyn diweddarau offer fideo yn y llysoedd gyda'r nod o sicrhau bod technoleg o'r fath yn cael ei defnyddio ym mha le bynnag y mae'n cynnig dewis amgen mwy effeithiol.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn sefydlu cwmni Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu annibynnol i'r Heddlu er mwyn manteisio ar botensial technoleg gwybodaeth yn y system cyfiawnder troseddol a byddwn yn archwilio sut y gallwn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy tryloyw a sicrhau bod y cyhoedd yn meithrin gwell cysylltiad â hi.

Ein huchelgais yw bod yr holl wybodaeth a thystiolaeth a gesglir ac sy'n berthnasol i ymchwiliad yn cael ei chipio unwaith, ar ffurf ddigidol, ac ar fformat y gellir ei rannu ar unwaith drwy ddulliau electronig â'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol, a hynny gyda chyn lleied o ymyrryd â llaw â phosibl.

Bydd ein cynlluniau'n cynnig y sylfaen ar gyfer gwasanaeth cyfiawnder troseddol di-fwlch ac effeithlon.

Cyfiawnder tryloyw

Mae'n bwysig bod ein cynlluniau ar gyfer diwygio'n cael eu hadeiladu ar sail tryloywder er mwyn i'r cyhoedd ddeall beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn riportio trosedd a sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb i'w bryderon. At hynny, rhaid inni adeiladu ar ein cryfderau go iawn, ynadon yn benodol; dolen hollbwysig sy'n cysylltu'r system cyfiawnder troseddol â chymunedau lleol.

Nid oes a wnelo hyn â sefydliadau ac adeiladau, ond â sicrhau bod y rheini sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys ynadon, yn meithrin cysylltiad â'r bobl yn eu cymunedau i wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac yn rhoi llais i'r cyhoedd yn y ffordd y darperir gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn eu hardaloedd.

I ddioddefwyr troseddau y mae ein prif gyfrifoldeb yn y maes hwn, pobl y mae angen iddynt gael gwybodaeth gywir a phrydlon am gynnydd ymchwiliadau ac erlyniadau yn erbyn y rheini sydd wedi troseddu yn eu herbyn. Mae angen inni sicrhau hefyd bod tystion yr ydym yn disgwyl iddynt roi o'u hamser i roi tystiolaeth yn y llys, yn cael gwybod am hynt achosion er mwyn iddynt eu paratoi eu hunain ar gyfer yr hyn a all fod yn brofiad anodd a llawn straen.

Dylai tystion, yn enwedig y rheini sy'n fregus neu o dan fygythiad, gael y cymorth priodol er mwyn iddynt allu rhoi eu tystiolaeth orau.

Er mwyn gwneud pethau'n fwy tryloyw, rydym yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am droseddu a chyfiawnder, gan gynnwys mapiau troseddol, a fydd yn cysylltu â gwybodaeth am ganlyniad achosion troseddol yn y llysoedd. Cyn bo hir, byddwn yn dechrau darlledu rhannau o achosion yn y Llys Apêl. A byddwn yn symud tuag at enwi troseddwyr yn fwy eang, er mwyn i gymunedau allu cael gwybod yn rhwydd pwy sydd wedi'u cael yn euog yn eu llys lleol.

Bydd ein cynlluniau'n galluogi'r cyhoedd i ddeall yr hyn sy'n digwydd i droseddu yn eu hardal leol a sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb.

Cyfiawnder atebol

Mae mwy o dryloywder yn gyfrwng hollbwysig er mwyn sicrhau bod modd dal gwasanaethau'n atebol. Felly rydym yn cymryd camau hefyd i sicrhau bod mecanweithiau ar waith am y tro cyntaf i gymunedau allu dal eu gwasanaethau cyfiawnder troseddol lleol yn atebol.

Rydym wedi cael gwared ar y Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus llurguniol a'r targedau canolog a oedd yn sail iddynt, gan adfer gallu gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'u crebwyll er mwyn gwneud yr hyn sy'n iawn a chefnogi ein cynlluniau i weinyddu cyfiawnder yn fwy chwim.

Ym mis Tachwedd 2012, cynhelir etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddol, gan sicrhau bod y ffordd y caiff cymunedau eu plismona'n fwy atebol.

Er nad ydynt ar waith eto, rydym yn dechrau ystyried sut y gallai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddol chwarae rôl ehangach ym maes diwygio cyfiawnder troseddol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr troseddol ac rydym yn ystyried a ddylent, wrth i amser fynd heibio, ymwneud hefyd â chomisiynu gwasanaethau rheoli troseddolwyr.

Mae cyfiawnder troseddol yn dirwedd gymhleth a bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddol feithrin trefniadau gweithio effeithiol gyda'u partneriaid. Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn bartneriaethau lleol sydd wedi cael eu traed danynt erbyn hyn ac maent yn dwyn arweinwyr cyfiawnder troseddol lleol at ei gilydd. Gwaith ardaloedd lleol fydd penderfynu pa drefniadau sy'n gweithio orau iddynt.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddol mewn sefyllfa dda i arwain gwaith diwygio cyfiawnder troseddol yn eu hardal, gan weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol i ddiwygio pethau ar lawr gwlad.

Y camau nesaf

Mae'r Papur Gwyn hwn yn sôn am y cynnydd diweddar sydd wedi'i wneud gan lunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol ac mae'n sôn hefyd am y cynlluniau ar gyfer y deuddeng mis nesaf. Megis dechrau datblygu rhai agweddau ar y rhaglen diwygio yr ydym, ac mae'r rheini'n cynnwys ein cynigion i.

- **rymuso un ynad lleyg i ymdrin ag achosion lefel-isel, diwrthwynebiad penodol ar ei ben ei hun (gweler paragraffau 119 i 123):**
- **cyflwyno trothwy ariannol ar gyfer troseddau naill ffordd - lladrata a thrin nwyddau sydd wedi'u lladrata, lle na fyddai gan ynadon y pŵer i draddodi'r achos ar gyfer treial yn Llys y Goron petai'r gwerth ariannol o dan y trothwy hwnnw, ond, lle na fyddai dim newid o gwbl i'r hawl sydd gan y diffynnydd i ddewis cael treial gan reithgor (gweler paragraffau 124 i 131): ac**
- **ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio cyswllt fideo mewn achosion troseddol (gweler paragraffau 151 i 153).**

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau hyn a byddwn yn cyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer diwygio maes o law. Yn y cyfamser, byddem yn croesawu barn neu awgrymiadau ynglŷn â'r rhaglen diwygio'n gyffredinol, ac ynglŷn â'r tri chynnig penodol hyn. Gellir eu hanfon atom:

ar lein yn: <http://www.justice.gov.uk/publications/policy/moj/swift-and-sure-the-governments-plans-for-reform-of-the-criminal-justice-system>

neu drwy'r ebost i: criminaljusticereformprogramme@justice.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i: Diwygio Cyfiawnder Troseddol, Pwynt Post 8.02, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder 02 Petty France, Llundain SW1H 9AJ

1. Rhagarweiniad

Y system cyfiawnder troseddol

1. Rydym yn falch o draddodiadau ein system cyfiawnder troseddol ac mae hynny'n ddigon teg. Mae'n cael ei hedmygu ym mhob cwr o'r byd a dyma sylfaen systemau cyfiawnder llawer o wledydd eraill.
2. Mae'n gonglfaen i gymdeithas gyfiawn, deg a diogel: yn wasanaeth y bydd dioddefwyr a'r cyhoedd yn dibynnu arno bob dydd i'w gwarchod rhag niwed ac i sicrhau bod y sawl sydd wedi troseddu yn eu herbyn yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Serch hynny, ni ddylem fod yn ddall i'w diffygion. Mae'n bryd inni bwysu a mesur ei heffeithiolrwydd o'r newydd a hynny'n onest, gan gytuno ar gydchelgais ar gyfer y system cyfiawnder troseddol sy'n chwim, yn gadarn, yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol.

Y cyd-destun ar gyfer diwygio

3. Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth, ac mae'n cynnwys llawer o wahanol asiantaethau, gan gynnwys heddluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd troseddol, cymorth cyfreithiol i dalu am amddiffyniad cyfreithiol, carchardai, y gwasanaeth prawf a thimau troseddau ieuencid. Yn rhy aml, mae'r sefydliadau hyn wedi gweithio mewn cylchoedd ynysig yn hytrach na chydweithio: mae'n system ddarniog yn hytrach nag yn wasanaeth cydlynol. Gwaethygydd hyn yn sgil diwylliant targedau sydd wedi disodli defnyddio lle crebwyll proffesiynol i wneud yr hyn sy'n iawn. Anogwyd asiantaethau i fynd ar drywydd targedau unigol: canolbwyntio ar foliwm yn hytrach nag ar ganlyniadau; ar faint yn hytrach nag ar ansawdd.
4. Mae diwygiadau'r Papur Gwyn hwn yn canolbwyntio ar y pwyntiau hynny lle bydd gwaith yn cael ei drosglwyddo rhwng yr asiantaethau. Maent wedi'u cynllunio i alluogi'r asiantaethau i gydweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan sicrhau bod troseddwr yn wynebu cyfiawnder a bod eu cosb yn gymesur â'r trosedd.
5. Ochr yn ochr â diwygiadau ehangach i faes troseddu a chyfiawnder, a grynhoir ym Mhennod 2, mae'r rhaglen yn anelu hefyd at sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol:
 - **yn atal troseddu ac yn amddiffyn dioddefwyr:** yn effeithiol wrth atal pobl rhag troseddu;
 - **yn ymatebol:** yn ymateb yn chwim ac yn effeithiol pan fydd trosedd yn digwydd, er mwyn i droseddwr orfod wynebu canlyniadau eu gweithredoedd yn ddi-oed; ac

- **yn cosbi ac yn diwygio:** yn sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cosbi, a'u bod yn cael cymorth i newid.

Diagnosis

6. Bydd y system cyfiawnder troseddol yn cael ei beirniadu'n rheolaidd am weithredu'n araf, am oedi'n aml, am ei diffyg tryloywder, ei chymhlethdod, ac am ei methiant i ddefnyddio'i hadnoddau gystal ag y gellid. Mae hyn yn effeithio ar bawb sy'n cymryd rhan, boed y rheini'n ddiodefwyr, yn dystion ynteu'n amddiffynwyr, yn ogystal ag yn weithwyr proffesiynol yn y system a'r cyhoedd y darperir y gwasanaethau hyn ar eu rhan.
7. Mae diodefwyr yn teimlo bod y system y orfiwrocraataidd ac yn ddryslyd. Nid ydynt yn teimlo bod y system yno ar eu cyfer hwy. Maent yn cwyno nad ydynt yn cael gwybod am ddatblygiadau yn eu hachos, ac nad yw eu barn yn cael ei hystyried pan wneir penderfyniadau o bwys. Weithiau, mae oedi'n cael ei weld yn dacteg y gellir ei ddefnyddio er budd diffynnydd ond mae'n cael effaith ddirifol ar ddiodefwyr, gan achosi pryder iddynt, yn enwedig yn yr achosion mwyaf dirifol. Ni ddylem synnu eu bod yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol i bob golwg yn rhoi buddiannau diffynnyddion o flaen eu buddiannau hwy.
8. Nid dim ond diodefwyr sy'n rhwystredig pan fydd oedi mewn achos. Mae oedi'n brofiad gwael i dystion hefyd, oherwydd mae'n yn anochel eu bod yn poeni wrth feddwl am roi tystiolaeth. Ac, wrth gwrs, mae'r rheini sy'n ddieuog o'r troseddau y'u cyhuddir ohonynt yn gorfod disgwyl yn hwy i glirio'u henwau.
9. Credwn hefyd fod amser yn ffactor hollbwysig o ran atal troseddu: gall dod â throseddwyr wyneb yn wyneb â chanlyniadau eu gweithredoedd eu sobreiddio. Gwyddom, er enghraifft, fod y posibilrwydd o gael eu dal yn fwy tebygol o atal troseddwyr na dirifoldeb y ddedfryd.² Yn rhy aml, gwelwn droseddwyr sydd, yn hytrach na'u bod wedi cael eu trin yn chwim gan y system cyfiawnder, wedi aros misoedd i gael eu dwyn gerbron y llysoedd ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, maent wedi cyflawni rhes o droseddau eraill y mae angen eu herlyn.
10. I ormod o bobl, mae'n ymddangos bod y system cyfiawnder troseddol wedi meithrin diwylliant sy'n goddef oedi. Nid yw'n gweithredu fel system, ond yn hytrach fel cyfres o asiantaethau unigol. Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system yn teimlo'r un mor rhwystredig â'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn dweud wrthym:
 - nad oes neb yn atebol am ganlyniadau o'r naill ben i'r llall. Mae'r asiantaethau'n gweithredu mewn cylchoedd ynysig, pob un â'i hamcanion, ei blaenoriaethau a'i hatebolrwydd mewnol ei hun.

² *Adroddiad Tystiolaeth Papur Gwyrdd, Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Rhagfyr 2010.*

- mae'r asiantaethau wedi canolbwyntio ar gyflawni disgwyliadau Whitehall, ar fynd ar drywydd targedau canolog, ac nid ydynt yn ymgysylltu'n briodol â blaenoriaethau lleol nac yn eu hadlewyrchu; ac
- mae targedau goruchelgeisiol, a rhaglenni rheoli a diwygio canolog wedi dirymu crebwyll gweithwyr proffesiynol, ac wedi troi cyfiawnder troseddol yn ymarfer ticio blychau.

Achosion gwastraff a methiant

Prosesau cymhleth a biwrocraidaidd

11. Nid dim ond strwythur y system cyfiawnder troseddol sy'n gymhleth. Mae hefyd yn defnyddio prosesau cymhleth a biwrocraidaidd a all arwain at oedi hirfaith ac achosion araf. Er enghraifft,
 - yn 2011, cymerodd 154 diwrnod ar gyfartaledd (neu ychydig dros 5 mis) rhwng trosedd a dedfryd, cynnydd o 2% o'i gymharu ag yn 2010;³
 - yn ystod yr un cyfnod, cymerodd achosion a gwblhawyd yn llysoedd yr ynadon 144 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, ond mae gwahanol fathau o achosion yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, cymerodd yr achosion a gychwynnwyd yn sgil cyhuddiad 86 o ddiwrnodau ar gyfartaledd ond cymerodd y rheini a gychwynnwyd drwy wŷs fwy o amser o lawer – 181 o ddiwrnodau ar gyfartaledd;⁴ ac
 - yn Llys y Goron, yn 2011, cymerodd achosion ar gyfartaledd 44 wythnos, neu oddeutu 10 mis, rhwng y trosedd a chanlyniad terfynol.⁵
12. Mae rhywfaint o dystiolaeth nad oes neb yn gweithio o ddifrif ar yr achosion hyn am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn. Mewn astudiaeth gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Northumbria, gwelwyd bod 53 o gamau prosesu gwahanol yn cael eu defnyddio gan yr heddlu, yr erlyniad a'r llysoedd wrth erlyn achosion ymosodiadau cyffredin drwy lysoedd yr ynadon. Canfuwyd ei bod yn cymryd ar gyfartaledd 15 wythnos a 6 niwrnod i symud o ddechrau'r broses i'w diwedd, a dim ond am 6 awr a 4 munud o hynny yr oedd gwaith ar y gweill go iawn.⁶

³ *Ystadegau Barnwrol ac Ystadegau'r Llysoedd, 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2012.* (Sylwer: Dim ond o fis Ebrill 2010 ymlaen y mae data ar gael am brydlondeb. Felly, seilir amcangyfrifon 2010 ar ddata o fis Ebrill tan fis Rhagfyr 2010.)

⁴ *Ystadegau dros dro am brydlondeb achosion llys troseddol, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012.*

⁵ Ibid.

⁶ Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Northumbria.

13. Gall oedi ddigwydd unrhyw bryd yn ystod yr achos ond nid oes fawr o ddealltwriaeth na thryloywder ynglŷn ag ymhle mae'r oedi mewn achosion yn digwydd, beth sy'n ei achosi, ac a oes rhesymau da dros hyn. Felly, er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol ag oedi, mae gofyn cael cydweithio, yn enwedig rhwng yr heddlu, yr erlyniad a'r llysoedd.

Methu sicrhau'r canlyniad iawn

14. Yn y blynyddoedd diwethaf, un peth sydd wedi bod yn destun pryder penodol yw'r cynnydd (gan ddechrau yn 2003/4) o ran defnyddio sancsiynau y tu allan i'r llys. Credwn fod y ffaith bod angen cyflawni targedau canolog ynghyd â chyflwyno dulliau gweinyddol newydd o gwblhau achosion wedi hybu hyn. Ond mewn ambell achos, roedd yn ymddangos nad oedd fawr o neb yn meddwl a fyddai hyn yn ffordd effeithiol o ymdrin â throseddu.
15. Rhwng 2003/4 a 2007/8, cynyddodd nifer y sancsiynau hyn fwy na 150%, ac er eu bod wedi gostwng wedi hynny, roeddent 75% yn uwch o hyd yn 2010/11 o'u cymharu ag yn 2003/4.⁷ Cododd hyn bryderon, yn enwedig ymhlith y farnwriaeth, eu bod yn cael eu defnyddio'n amhriodol.

Diffyg hyblygrwydd a'r angen am fwy o grebwyll proffesiynol

16. Canlyniad diffyg hyblygrwydd wrth ymdrin ag achosion yn aml yw gwastraff ac oedi. Mae cyfran fawr o'r erlyniadau yn llysoedd yr ynadon yn erlyn troseddau cymharol ddibwys (er enghraifft, osgoi talu trwyddedau teledu, mân droseddau traffig ac osgoi talu treth cerbydau). Erlynwyd 1.56 o ddiffynyddion yn llysoedd yr ynadon yn 2011,⁸ ac roedd dros 215,000 o'r rheini'n achosion trwyddedau teledu a threth cherbydau, ac roedd 550,000 ar gyfer troseddau moduro diannod.
17. Anaml y gwrthwynebir yr achosion hyn; anaml y bydd diffynyddion yn ymwneud yn ymarferol â'r broses; ac, fel rheol, y canlyniad fydd cosb ragweladwy, dirwy gan amlaf, ac, yn achos troseddau traffig, ardystiad ar drwydded gyrru'r troseddwr. Credwn fod yr achosion hyn yn rhy aml yn llyncu mwy o amser y llysoedd nag y dylent.
18. Problem fwy eto yw'r gwaith diangen i baratoi achos ar gyfer treial. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, bydd y diffynnydd maes o law'n pledio'n euog rywbryd yn ystod yr achos, a gwyddom fod cyfran fawr o'r rhain yn cael eu cynnig yn hwyr iawn yn yr achos.

⁷ *Troseddau a Ganfuwyd yng Nghymru a Lloegr 2010/11*, HOSB 11/11, Y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2011..

⁸ *Ystadegau Cyfiawnder Troseddol, Diweddariad Chwarterol hyd at fis Rhagfyr 2011*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mai 2012.

Achosion na fyddant yn cadw at yr amserlen

19. Pan ddaw achosion gerbron y llysoedd, yn rhy aml, ni fyddant yn mynd rhagddynt yn ôl y cynlluniau. Er enghraifft, yn 2011:⁹
- nid oedd 18% o'r treialon yn llysoedd yr ynadon na 14% o'r treialon yn Llys y Goron yn barod, neu ni allent fynd rhagddynt, a bu'n rhaid eu hailrestru (gelwir y rhain yn dreialon aneffeithiol); ac
 - fe chwalodd tua 4 o bob 10 treial.¹⁰
20. Er gwaethaf y gostyngiad yn y llwyth achosion cyffredinol, a bod cyfres o ddiwygiadau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r problemau hyn, mae cyfran y treialon effeithiol, aneffeithiol a chwâl wedi aros yn gyson yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn llawer o achosion, canlyniad newid ple i bledio'n euog yw treial chwâl, ac yn yr ystyr hwnnw, mae'n ganlyniad cadarnhaol i'r dioddefwr ac i'r cyhoedd. Serch hynny, mae cofnodi'r ple mor hwyr yn golygu bod yr achos wedi cael ei baratoi'n llawn ar gyfer treial a bod y dioddefwyr a'r tystion wedi wynebu trafferth heb fod angen.

System cyfiawnder troseddol hynod ganolog

21. Ac eithrio'r heddlu, mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithredu o fewn system hynod ganolog. Er hynny, mae perfformiad y rhanbarthau'n amrywio'n fawr ar sawl agwedd. Er enghraifft,
- wrth gymharu hyd achosion yn yr ardaloedd sy'n perfformio orau â'r rhai sy'n perfformio waethaf, gwelir bod gwahaniaeth o dair wythnos yn llysoedd yr ynadon a 10 wythnos yn Llys y Goron;
 - mae cyfran y treialon aneffeithiol yn amrywio o 12% i 20% yn llysoedd yr ynadon ac o 13% i 16% yn Llys y Goron; ac
 - mae cyfran y treialon chwâl yn amrywio o 36% i 46% yn llysoedd yr ynadon ac o 32% i 53% yn Llys y Goron.¹¹
22. Mae rhywfaint o amrywiad i'w ddisgwyl ond credwn fod hyn hefyd yn dangos bod lle i leihau'r bwch rhwng y rhai sy'n gwneud orau a'r rhai sy'n gwneud waethaf drwy feincnodi perfformiad a chyfnwid yr arferion gorau.

⁹ *Ystadegau Barnwrol ac Ystadegau'r Llysoedd 2011*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2012.

¹⁰ Treial "chwâl" yw achos sydd wedi'i restru ar gyfer treial ond a ddatrysir heb fod angen cynnal treial llawn, fel rheol oherwydd bod y diffynnydd yn newid ei ble ac yn pledio'n euog, neu oherwydd bod yr erlyniad yn penderfynu gollwng yr achos ar y dyddiad y mae'r treial wedi'i restru ar ei gyfer, neu fymryn cyn hynny.

¹¹ *Ystadegau Barnwrol ac Ystadegau'r Llysoedd 2011*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2012.

Rhannu atebolrwydd lleol am ganlyniadau lleol

23. Ar hyn o bryd, ychydig o lais sydd gan y cyhoedd yn yr hyn y bydd y system cyfiawnder troseddol yn ei wneud, nac ychwaith ynglŷn â sut y gall wella. Petai aelod o'r cyhoedd am ymwneud â'r drefn, er enghraifft petai am gael gwybod rhagor, neu petai'n awyddus i wirfoddoli, byddai'n ei chael yn anodd cael gwybod sut mae gwneud hynny.
24. Mae ymarferwyr wedi croesawu dileu targedau, ac mewn rhai ardaloedd, mae'r trefniadau partneriaeth lleol sydd ganddynt ar waith yn gweithio'n dda, yn enwedig y rheini sydd wedi canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd. Ond, heb fod ganddynt ganlyniad clir sy'n amlwg i bawb, bydd rhai ardaloedd yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r partneriaethau hynny gystal ag y gallent. Felly, mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor i hybu a chefnogi cydweithio yn y system cyfiawnder troseddol, heb ddychwelyd at dargedau trwsogl y gorffennol.

Diffyg tryloywder ac ymatebolrwydd

25. Rhaid gweinyddu cyfiawnder a rhaid i gyflawnder gael ei weld yn cael ei weinyddu er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Nid oes a wnelo hyn â darparu gwybodaeth dim ond er mwyn ei darparu: os yw'r wybodaeth sydd ar gael am berfformiad yn wael neu'n brin, mae'n eithriadol o anodd i'r cyhoedd ddal y system a'r rheini sy'n gweithio ynddi'n atebol.
26. Gwyddom fod llawer o waith i'w wneud. Dim ond 43% o'r cyhoedd sy'n ffyddiog bod y system cyfiawnder troseddol yn effeithiol, er bod cyfran fwy (dros 60%) yn ffyddiog ei bod yn deg.¹²
27. Mae hyn yn codi goblygiadau ymarferol go iawn i'r system cyfiawnder troseddol a'r rheini sy'n ei defnyddio. Gwyddom y gellir cryfhau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol a'r hyn y mae pobl yn ei wybod amdani, drwy ddarparu gwybodaeth.¹³ Os bydd darparu rhagor o wybodaeth yn cryfhau ymddiriedaeth pobl yn y system cyfiawnder troseddol a'u hymwneud â hi, fe all hefyd annog dioddefwyr i ripoortio troseddau, a thystion i ddod ymlaen, gan wybod yr ymdrinnir yn drwyadl â'u hachos.
28. Mae gan bobl sydd wedi dioddef yn sgil troseddu brofiad uniongyrchol o'r ffordd y bydd y system cyfiawnder troseddol yn gweithio. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y system cyfiawnder troseddol yn wael am roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd. Er bod y rhan fwyaf o

¹² *Troseddu yng Nghymru a Lloegr 2010/11, Canfyddiadau Arolwg Troseddu Prydain a Throseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu (2^{il} Argraffiad)*, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 10/11, Gorffennaf 2011.

¹³ *Adroddiad Tystiolaeth Papur Gwyrdd, Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Rhagfyr 2010.

ddioddefwyr yn gyffredinol fodlon ar ymateb yr heddlu¹⁴, canfu gwaith ymchwil blaenorol mai dim ond 37% o'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil troseddu a riportwyd i'r heddlu a oedd yn teimlo iddynt gael gwybodaeth dda iawn neu eithaf da am gynnydd yr ymchwiliad¹⁵ (er bod arolwg ymhlith dioddefwyr yr oedd eu hachos wedi arwain at gyhuddiad yn fwy bodlon).¹⁶

29. Cyhoeddwyd ein cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau i ddiodesfwyr yn ddiweddar yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, *Gwneud Pethau'n Iawn i Ddiodesfwyr a Thystion*.¹⁷

Technoleg wael a gwastraffu buddsoddi

30. Mae adnoddau sylweddol wedi cael eu buddsoddi mewn technoleg dros y degawd diwethaf. Serch hynny, nid yw'r cyhoedd wedi gweld budd digonol yn sgil y buddsoddi sylweddol hwn. Fel y dengys adroddiadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gwelwyd oedi difrifol wrth gyflwyno prosiectau megis LIBRA, yn llysoedd yr ynadon a C-NOMIS ar gyfer rheoli troseddwy¹⁸, gwariwyd mwy na'r gyllideb ac ni lwyddwyd i ddarparu'r holl nodweddion a addawyd.
31. Yn sgil penderfyniadau buddsoddi gwael, gwastraffwyd adnoddau, a rhoddwyd rhaglenni ar waith mewn ffordd a oedd yn atgyfnerthu'r dull gweithio ynysig, yn hytrach na helpu i'w osgoi. Ychydig o enghreifftiau sydd o asiantaethau cyfiawnder troseddol yn rhannu gwasanaethau; nid yw systemau'r asiantaethau wedi'u cydblethu'n dda, ac mae gofyn ymyrryd â llaw er mwyn rhannu gwybodaeth; nid ydym ychwaith wedi sicrhau gwerth am arian yn ein perthynas â'n cyflenwyr.

¹⁴ Roedd 70% o'r diodesfwyr a fu mewn cysylltiad â'r heddlu'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater gan yr heddlu. *Canfyddiadau Arolwg Troseddu Prydain a Throseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu (2^{il} Argraffiad)*, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 10/11.

¹⁵ Mewn 37% o'r digwyddiadau a riportwyd wrth yr heddlu, roedd y diodesfwyr yn teimlo'u bod wedi cael gwybodaeth dda iawn neu wybodaeth weddol dda gan yr heddlu am hynnt eu hymchwiliad. Roedd 34% o'r diodesfwyr yn teimlo nad oeddent wedi cael gwybodaeth dda iawn neu nad oeddent wedi cael gwybodaeth o gwbl, a dywedodd y diodesfwyr yn y 29% achos sy'n weddill nad oedd angen iddynt gael gwybodaeth. *Arolwg Troseddu yng Nghymru a Lloegr 2007/08 a 2008/09* (Adroddiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y gweill).

¹⁶ *Bodlonrwydd a pharodrwydd i ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol. Canfyddiadau Arolwg Tystion a Dioddefwyr, 2009-10*, Franklyn, R (2012), Cyfres Ymchwil y Weinyddiaeth Cyfiawnder 1/12.

¹⁷ *Gwneud pethau'n iawn i ddiodesfwyr a thystion: ymateb y Llywodraeth*, Cm 8397, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012.

¹⁸ Libra yw'r system rheoli achosion a ddefnyddir yn llysoedd yr ynadon a C-NOMIS yw'r system rheoli achosion ar gyfer y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy.

Y canlyniadau a gyflawnir gan y system cyfiawnder troseddol

32. Nid yw'r broses cyfiawnder troseddol yn ben draw ynddi'i hun. Ei phwrpas yw dod â throseddwyr wyneb yn wyneb â chanlyniadau eu gweithredoedd, fel bod yr euog yn cael eu cosbi'n iawn ac yn cael cymorth i newid. Wrth wneud hynny, ein nod yw lleihau eu troseddu ac atal eraill rhag troseddu hefyd.
33. Er inni wneud rhywfaint o gynnydd yn ddiweddar, mae'r cyfraddau troseddu'n dal yn rhy uchel o lawer:
 - yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2011, cyflawnwyd dros 75% o'r troseddau a brofwyd gan droseddwyr a oedd wedi cael cerydd, rhybudd, rhybuddiad neu euogfarn am drosedd¹⁹ cyn hynny;
 - bydd 47% o droseddwyr sy'n oedolion, a 69% o droseddwyr ifanc, yn aildroseddu o fewn blwyddyn ar ôl gadael y carchar.²⁰
34. Wrth gymharu troseddwyr tebyg â'u tebyg, roedd dedfrydau dan glo o lai na 12 mis yn llai effeithiol o ran lleihau aildroseddu na gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig – a hynny rhwng pump a naw pwynt canran yn 2008.²¹

Y ffordd ymlaen

35. Mae'r diagnosis hwn yn dangos yn glir bod angen diwygio, ac, fel mae'r Papur Gwyn hwn yn dangos, mae rhywfaint o waith ar y gweill eisoes i ddatrys y problemau hyn.
36. Serch hynny, er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau systematig a restrwyd gennym, mae gofyn mynd ati i ddiwygio pethau mewn ffordd fwy sylfaenol o lawer. Dangosodd yr ymateb i'r helyntion yn ystod haf 2011 yr hyn a oedd yn bosibl. Er enghraifft, o fewn mis i'r helyntion:²²
 - roedd dros 1,700 wedi eu dwyn gerbron y llysoedd i'w cyhuddo o droseddau yng nghyswllt yr helyntion; ac
 - roedd ychydig o dan 18% o'r rhain wedi'u cael yn euog a'u dedfrydu;
37. Dangosodd yr helyntion rywbeth arall inni hefyd. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn adnabyddus i'r awdurdodau ac wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol o'r blaen, rhai ohonynt lawer gwaith. Drwyddi draw, roedd y rheini a ddygwyd gerbron y llysoedd o fewn saith wythnos i'r

¹⁹ *Ystadegau Cyfiawnder Troseddol, Diweddariad Chwarterol hyd at fis Rhagfyr 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mai 2012.*

²⁰ *Ystadegau aildroseddu a brofwyd - bwletin chwarterol: Gorffennaf 2009 - Mehefin 2010, Cymru a Lloegr, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Ebrill 2012.*

²¹ *Compendiwm o ystadegau aildroseddu a dadansoddiad ohonynt, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mai 2011.*

²² *Bwletin Ystadegol ar yr Anhrefn Cyhoeddus 6 – 9 Awst 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Medi 2011.*

helyntion wedi cyflawni bron 20,000 o droseddau blaenorol, cyfartaledd o 11 trosedd blaenorol yr unigolyn (neu 14 trosedd blaenorol y troseddwr sydd wedi cyflawni o leiaf un trosedd blaenorol).²³ Mae'n amlwg mai ychydig o ddylanwad a gafodd y system cyfiawnder troseddol ar eu hymddygiad troseddol. Dyna pam mae'r diwygiadau yn y Papur Gwyn hwn yn ategiad mor bwysig at ein cynlluniau ar gyfer lleihau troseddu.

38. Roedd yr amgylchiadau hynny'n rhai eithriadol, ond maent yn cynnig gwersi y gallwn adeiladu arnynt. Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro sut y bwriadwn wneud hynny, gan drawsnewid cyfiawnder a throi system araf a darniog yn wasanaeth di-fwlch effeithlon sy'n gweithredu'n chwim, yn bendant ac mewn ffordd ymatebol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd o bwys i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Casgliad

39. Megis cychwyn yw'r cynlluniau sydd yn y Papur Gwyn hwn. A chofio'r cyd-destun ariannol, mae hyn yn her sylweddol. Ond un peth yr ydym wedi'i ddysgu yw nad taflu arian at y system cyfiawnder troseddol yw'r ateb. Bydd penderfyniadau beunyddiol asiantaethau'n effeithio ar lwyth gwaith ac ar gostau eu partneriaid. Felly, mae'r ffaith bod lleihau eu costau'n bwysig iddynt i gyd yn cynnig cymhelliant cryf iddynt gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn troi'r cynlluniau hyn yn ddiwygiadau go iawn sy'n sicrhau gwelliannau amlwg i fywydau'r sawl sy'n dioddef yn sgil troseddu, ac i fywydau'r cyhoedd.
40. Ym Mhennod 2, crynhoir cynlluniau ehangach y Llywodraeth ar gyfer diwygio troseddu a chyfiawnder, gan egluro sut mae'r cynlluniau hyn yn cydweddu â hwy. Yn y penodau a ganlyn, rhestrir y camau a gymerwyd eisoes, ein cynlluniau ar gyfer rhagor o ddiwygio, a chamau cynnar ein syniadau hirdymor i sicrhau cyfiawnder chwim, cadarn, effeithlon, atebol a thryloyw.
41. Mae Asesiad Effaith ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u paratoi sy'n dangos yr effaith a ragwelir yn sgil y diwygiadau polisi hyn. Cyhoeddwyd y rhain ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn.²⁴

²³ *Bwletin Ystadegol ar yr Anhrefn Cyhoeddus 6 – 9 Awst 2011, Diweddariad mis Hydref, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Hydref 2011.* (Mae'r data am hanes troseddol wedi'u seilio ar y data a oedd ar gael erbyn canol dydd ar 28^{ain} Medi 2011

²⁴ Gweler: <http://www.justice.gov.uk/publications/policy/moj/swift-and-sure-the-governments-plans-for-reform-of-the-criminal-justice-system>

2. Rhaglen diwygio ehangach y Llywodraeth

Cefndir y diwygio

42. Mae'r Llywodraeth wedi'i gwneud yn glir mai ein prif flaenoriaeth yw mynd i'r afael â'r diffyg ariannol. Ni all y system cyfiawnder troseddol gael ei heithrio rhag yr her honno, a rhaid iddi gyfrannu at y broses. Ond mae hyn yn cynnig cyfle i ymwrthod â hen ffyrdd o feddwl sef mai 'arian yw'r unig ateb'. Ni waeth beth yw'r sefyllfa, mae'n iawn i'n gwasanaethau cyhoeddus ymdrechu'n barhaus i gyflawni'n well am lai.

Diwygio plismona

43. Eglurwyd cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r Heddlu yn *Plismona yn yr 21ain ganrif*.²⁵ Bwriad y diwygiadau hyn yw sicrhau bod yr heddlu'n fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â throseddu. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud eisoes drwy gyfrwng Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 sy'n paratoi'r ffordd i wasanaeth yr heddlu ddod yn wirioneddol atebol i'r cyhoedd y maent yn ei wasanaethu, gan sicrhau bod yr heddlu'n dod yn fwy proffesiynol ac yn cael eu harwain yn well, a bod swyddogion yr heddlu'n treulio rhagor o amser yn ymladd yn erbyn troseddu a llai o amser yn gwneud gwaith papur.
44. Un o'r prif gamau yn y Ddeddf yw hwnnw sy'n rhoi llais uniongyrchol i'r cyhoedd yn y ffordd y plismonir eu cymunedau drwy gyfrwng Comisiynwyr etholedig yr Heddlu a Throseddu.
45. Cynhelir etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd, ac o 2013/14, ymlaen, bydd y Comisiynwyr hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb gan y llywodraeth ganol am gomisiynu gwasanaethau sy'n helpu i fynd i'r afael â chyffuriau a throseddu, lleihau aildroseddu a gwella diogelwch cymunedau. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn gwell sefyllfa i benderfynu ynglŷn ag anghenion lleol a gallant benderfynu noddi prosiectau sy'n cefnogi amcanion diogelwch cymunedol. Ceir rhagor o fanylion am gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a mwy o atebolrwydd lleol ym mhennod 7,
46. Bydd y diwygiadau hyn yn galluogi'r Swyddfa Gartref i ailganolbwyntio'i hymdrechion ar fynd i'r afael â bygythiadau cenedlaethol a chydlynu camau a chydweithredu strategol rhwng lluoedd. Mae hyn yn cynnwys creu Asiantaeth Troseddu Genedlaethol newydd, bwerus i gryfhau'r frwydr yn erbyn troseddau difrifol a threfnedig sy'n gweithredu ar draws ffiniau heddluoedd.

²⁵ *Plismona yn yr 21^{ain} Ganrif*, Y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2010..

Diwygio gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion troseddau

47. Ein prif gyfrifoldeb yw i ddioddefwyr troseddau, y mae angen iddynt gael gwybodaeth gywir a phrydlon am gynnydd ymchwiliadau ac erlyn y rheini sydd wedi troseddu yn eu herbyn. Cyhoeddwyd y **Strategaeth Dioddefwyr, Gwneud pethau'n iawn i Ddioddefwyr a Thystion**²⁶, ar 30 Ionawr 2012. Roedd yn ceisio barn pobl am gyfres o gynigion diwygio gyda'r nod o helpu dioddefwyr a thystion i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i oresgyn effeithiau troseddu ac i'w helpu i chwarae eu rhan wrth ddod â throseddwyr gerbron cyfiawnder. Yn ymateb y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ar 2 Gorffennaf²⁷, nodwyd sut y bwriadwn ddiwygio gwasanaethau i ddioddefwyr er mwyn iddynt:
- ganolbwyntio adnoddau a chymorth ar y dioddefwyr y mae arnynt eu hangen fwyaf, ac ar yr adeg pan fydd angen y cymorth hwnnw arnynt;
 - diwallu gwahanol anghenion cymunedau drwy'r wlad;
 - sicrhau bod troseddwyr yn gwneud iawn yn briodol i ddioddefwyr am eu troseddau, gan gynnwys drwy gyfrannu rhagor at gostau gwasanaethau i ddioddefwyr drwy'r gordal i ddioddefwyr; a
 - hybu defnyddio cyfiawnder gwneud iawn a chyfiawnder adferol a sicrhau bod rhagor o ddioddefwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn y camau hyn yn cael y cyfle i wneud hynny.
48. Cyhoeddwyd hefyd ein bod yn bwriadu datganoli comisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr lleol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
49. Yn ogystal â'r cynigion diwygio hyn, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thrais yn y cartref, gan sicrhau bod gan yr heddlu ac asiantaethau eraill yr arfau angenrheidiol i ddod â throseddwyr gerbron cyfiawnder a bod dioddefwyr yn cael y cymorth angenrheidiol i ailafael yn eu bywydau. Rydym wedi cyhoeddi²⁸ y byddwn yn cynnal cynllun peilot am flwyddyn gan ddechrau yn haf 2012 i roi Cynllun Datgelu Trais Domestig ar brawf.

Diwygio dedfrydu, a rheoli troseddwyr

50. Sicrhau cyfiawnder chwim a chadarn, gan ddod â throseddwyr wyneb yn wyneb â chanlyniadau eu gweithredoedd, yw'r cam cyntaf i'w cosbi a'u diwygio. Eglurwyd cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r fframwaith

²⁶ *Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion*, Cm 8288, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Ionawr 2012.

²⁷ *Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion: ymateb y Llywodraeth*, Cm 8397, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012.

²⁸ *Cynllun Datgelu Trais Domestig, Ymgynghoriad: Crynodeb o'r Ymatebion*, Y Swyddfa Gartref, Mawrth 2012..

dedfrydu a rheoli troseddwy yn ein crynodeb o'r ymateb i'r Papur Gwyrdd *Torri'r Cylch*.²⁹ Bwriedir i'r rhain sicrhau cosbau mwy effeithiol i warchod y cyhoedd a lleihau aildroseddu. Maent yn cynnwys cyflwyno dedfryd estynedig lem newydd ar gyfer troseddwy difrifol sy'n cyflawni troseddau treisgar a throseddau rhyw; symleiddio'r fframwaith dedfrydu a rhyddhau er mwyn ei wneud yn fwy tryloyw; troi carchardai'n fannau gwaith caled; a thalu darparwyr gwasanaethau rheoli troseddwy ar sail canlyniadau.

51. Ar hyn o bryd, mae gormod o garcharorion yn cael treulio'u hamser yn y carchar mewn segurddod gorfodol, heb iddynt wneud fawr ddim neu ddim byd adeiladol. Rydym am i garchardai ddod yn fannau **gwaith** a hyfforddiant **ystyrlon**, lle bydd mwy o garcharorion o lawer yn gweithio am hyd at 40 awr yr wythnos a mwy na hynny efallai, heb roi baich ychwanegol ar y trethdalwr. Rydym yn dechrau gwireddu ein huchelgais, gan gynnwys mewn canolfannau sydd wedi mabwysiadu'r drefn yn gynnar, megis CEM Kirkham a CEM Maidstone. Bydd y cynlluniau hyn yn cynyddu nifer y carcharorion sy'n gwneud gwaith ystyrlon a chynhyrchiol o dan ddisgyblaeth oriau gwaith rheolaidd. Bydd gwella'u sgiliau ar gyfer cyflogaeth barhaus yn gymorth iddynt adsefydlu ar ôl eu rhyddhau.
52. Ym mis Medi 2011, rhoddwyd **Deddf Enillion Carcharorion 1996** ar waith hefyd lle bydd hyd at 40% o enillion carcharorion risg-isel sy'n gweithio y tu allan i'r carchar i baratoi ar gyfer eu rhyddhau, yn mynd at yr elusen genedlaethol Cymorth i Ddiodefwr. Erbyn diwedd mis Mawrth 2012, roedd bron £384,000 wedi'i godi drwy orfodi'r ardoll hon ar enillion carcharorion. Drwy gynyddu'r gwaith y tu mewn i garchardai, bydd cyfle arall hefyd inni greu cronfeydd gwneud iawn ac adsefydlu. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd cynigion manwl ar gyfer diwygio dedfrydau cymunedol a gwasanaethau prawf gyda'r nod o gosbi a diwygio troseddwy yn well a diogelu'r cyhoedd.
53. Yn yr ymgynghoriad ar **ddedfrydau cymunedol**, *Cosbi a Diwygio: Dedfrydau Cymunedol Effeithiol*,³⁰ ceisiwyd barn pobl ynglŷn â chynigion ar gyfer diwygio er mwyn eu gwneud yn ddull effeithiol a chredadwy o fynd i'r afael â chyfradd uchel aildroseddu. Y nod yn y pen draw yw sicrhau llai o droseddu a llai o ddiodefwr.
54. Dyma'r prif feysydd y bwriedir eu diwygio:
 - creu Cosb Gymunedol Ddwys i droseddwy sy'n haeddu cosb sylweddol, ond y mae'n briodol iddynt fwrw dedfryd yn y gymuned;

²⁹ *Torri'r Cylch: Ymateb y Llywodraeth: Government Response*, Cm 8070, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2011.

³⁰ *Cosbi a Diwygio: Dedfrydau Cymunedol Effeithiol*, Cm 8334, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mawrth 2012.

- cynnwys elfen o gosb ym mhob gorchymyn cymunedol, a defnyddio mwy ar gyrfywiau, monitro electronig a thechnoleg newydd, a hynny mewn ffyrdd mwy arloesol er mwyn sicrhau bod troseddwr yn cydymffurfio ag amodau eu dedfrydau;
 - defnyddio cosbau ariannol mewn ffordd fwy hyblyg, a defnyddio mwy ar atafaelu asedau troseddwr;
 - sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn ddi-oed os torrir amodau gorchymynion cymunedol, er mwyn sicrhau bod troseddwr yn cydymffurfio ag amodau eu dedfryd;
 - cynnal cynlluniau peilot ymatal rhag alcohol, i'r rheini y mae eu hymddygiad troseddol yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, lle bydd gofyn i droseddwr gael profion anadlydd rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn yfed; ac
 - annog mwy o ddefnydd a defnydd mwy effeithiol ar gyfiawnder adferol, yn enwedig fel rhan o'r trefniadau ôl-dedfryd ac archwilio opsiynau yng nghyswllt defnyddio cyfiawnder adferol fel rhan o'r trefniadau cyn-dedfryd.
55. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i wireddu ymrwymiad y Llywodraeth i ddargyfeirio troseddwr ifanc ac oedolion sydd ag anabledd dysgu, anhwylder personoliaeth, problemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol cyn gynted byth ag y bo modd, lle bo hynny'n briodol. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio hefyd gyda'r Adran Iechyd i archwilio a phrofi opsiynau ar gyfer mathau amgen o driniaeth ddwys yn y gymuned i droseddwr, yn lle'u cadw dan glo. Mae hynny'n cynnwys troseddwr sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n dibynnu ar gyffuriau.
56. Yn yr ymgynghoriad ar **wasanaethau prawf**³¹ effeithiol, rhestrwyd cynigion i ddiwygio'r gwasanaethau prawf er mwyn sicrhau gwell canlyniadau o ran cyfiawnder: amddiffyn y cyhoeddi, lleihau aildroseddu a sicrhau bod troseddwr yn cael eu cosbi'n iawn.
57. Y cynigion penodol yn yr ymgynghoriad yw:
- ehangu rhagor ar egwyddorion cystadleuaeth, sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn ystâd y carchardai dros y blynyddoedd diwethaf, i system lle y caiff troseddwr eu rheoli fwy yn y gymuned;
 - archwilio sut orau mae sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gallu defnyddio arbenigedd y sector gwirfoddol a'r sector preifat, ochr yn ochr â modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, gan

³¹ *Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithiol*, Cm 8333, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mawrth 2012.

gynnwys mentrau ar y cyd, mentrau cymdeithasol a Chwmnïau Cyfuddiannol Gwasanaethau Cyhoeddus;

- gweld Ymddiriedolaethau Prawf yn ysgwyddo rôl gryfach yn y dyfodol fel comisiynwyr gwasanaethau prawf cystadleuol, a'u bod yn cael eu contractio i fod yn gyfrifol am sbarduno gwell canlyniadau. Mae'n cynnig sefydlu bwlch clir rhwng y sawl sy'n comisiynu gwasanaethau cystadleuol a'r rhai sy'n eu darparu; a
 - chryfhau darparu gwasanaethau prawf yn lleol a'r atebolrwydd amdanynt, gan ymgynghori ar wahanol fodolau i oruchwylio gwasanaethau prawf, gan gynnwys cyfraniad posibl gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu neu awdurdodau lleol yn ddiweddarach.
58. Daeth yr ymgynghori i ben ar 22 Mehefin ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi ei hymateb yn ddiweddarach eleni.
59. Mae **talau ar sail canlyniadau** yn newid sylweddol yn y ffordd y byddwn yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau troseddol. Drwy dalu ar sail canlyniadau, byddwn yn rhoi'r pwyslais ar y canlyniadau a gyflawnir gan bobl, ac ni fyddwn ond yn gwobrwyo'r rheini sy'n llwyddo go iawn i leihau aildroseddu, gan wario arian y trethdalwyr ar yr hyn sy'n gweithio'n unig. Rydym am ddatblygu marchnad gymysg a chystadleuol o ddarparwyr, a chreu'r amodau lle y gall arloesi ffynnu.
60. Mae rhagor o fanylion am ein gwaith ar gynlluniau peilot talu ar sail canlyniadau i'w gweld ym Mhennod 4.

Cymorth cyfreithiol

61. Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau ar gyfer diwygio **cymorth cyfreithiol**.³² Nod y rhain oedd sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu at y rheini y mae ei angen arnynt fwyaf, ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol lle y bydd modd cyfiawnhau cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Roeddent hefyd yn awyddus i arbed symiau sylweddol ar gost flynyddol cymorth cyfreithiol, sef £2 biliwn.
62. Ym mis Hydref 2011, cyflwynwyd diwygiadau i'r ffioedd a delir mewn achosion troseddol gyda'r nod o hybu achosion mwy chwim a mwy effeithlon. Roedd y rhain yn cynnwys:
- talu ffi benodedig ar gyfer pledio'n euog mewn achos naill ffordd yn Llys y Goron, lle'r oedd ynadon wedi penderfynu ei fod yn addas ar gyfer treial diannod; a

³²

Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr: Ymateb y Llywodraeth, Cm 8072, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2011.

- lleihau'r gwahaniaeth yn y ffioedd a delir am bledio'n euog yn gynnar ac yn hwyr yn Llys y Goron.
63. Ynghyd â'r diwygiadau yn y Papur Gwyn hwn, mae'r rhain yn ceisio sefydlu'r cymhellion cywir er mwyn i'r rheini sy'n cydnabod eu bod yn euog bledio'n euog gynted byth ag y bo modd mewn achos.

Diwygiadau ehangach

64. Y camau a restrir yw'r prif feysydd lle y diwygir cyfiawnder troseddol. Serch hynny, mae troseddu'n cynnwys ystod eang o ymddygiad, ac mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hategu hefyd gan gyfres o ddiwygiadau sy'n cael eu targedu'n fwy manwl gyda'r nod o fynd i'r afael â mathau penodol o droseddu.
65. Er enghraifft, amcangyfrifir bod niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn costio £21 biliwn y flwyddyn i'r gymdeithas. Cyhoeddwyd Strategaeth Alcohol y Llywodraeth ar 23 Mawrth 2012.³³ Nod y strategaeth yw newid agweddau at alcohol mewn ffordd radical a lleihau nifer y bobl sy'n goryfed. Mae'r strategaeth yn pennu'r ystod eang o gamau a gymerir i fynd i'r afael â hyn gan gynnwys:
- cyflwyno lleiafswm pris yr uned ar gyfer alcohol ac ymgynghori ynglŷn â gwahardd hyrwyddo prisiau swmp-brynu mewn siopau;
 - cyflwyno pwerau cryfach i ardaloedd lleol reoli dwysedd eiddo trwyddedig gan gynnwys gwneud yr effaith ar iechyd yn ystyriaeth;
 - rhoi cynlluniau peilot arloesol ar waith i annog sobrwydd drwy herio troseddu sy'n gysylltiedig ag alcohol a gofyn i'r Prif Swyddog Meddygol adolygu'r canllawiau alcohol cyfredol ar gyfer oedolion;
 - darparu triniaeth a gwasanaethau ymadfer effeithiol i helpu'r rheini y mae angen iddynt gael llwybrau i ddianc rhag eu dibyniaeth; a
 - sicrhau cefnogaeth y diwydiant drwy gyfrwng y Fargen Gyfrifoldeb er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr o gynhyrchion gwannach, ac ymrwymiad i dynnu un biliwn o unedau o alcohol oddi ar farchnad erbyn diwedd 2015.
66. Dros y misoedd nesaf, bydd y Llywodraeth yn cynnal nifer o ymgynghoriadau ar brif gynigion y strategaeth, gan gynnwys ar ba lefel y dylid gosod y lleiafswm pris ar gyfer uned a'r cynnig i wahardd gostwng prisiau ar swmp-bryniannau.
67. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi ychydig o dan £450 miliwn hefyd mewn rhaglen fawr sydd â'r nod o drawsnewid bywydau **teuluoedd mwyaf trwblus** y wlad gan leihau'r baich y maent yn ei osod ar y trethdalwr.

³³ *Strategaeth Alcohol y Llywodraeth*, Cm 8336, Y Swyddfa Gartref, Mawrth 2012.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Louise Casey yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac mae nifer o adrannau wedi cyfrannu arian a chymorth.

68. Teulu trwblus yw teulu sydd â phroblemau difrifol - gan gynnwys rhieni nad ydynt yn gweithio, plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, aelodau sy'n ymwneud â throsteddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ffactorau eraill sy'n costio'n ddruod. Yn hytrach na bod ystod o wahanol asiantaethau'n gweithio mewn cylchoedd ynysig i fynd i'r afael â phob un o'r materion hyn, bydd y rhaglen yn rhoi cymhellion i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymdrin â phroblemau pob teulu mewn ffordd gyfannol yn hytrach nag fel unigolion, gan sefydlu ymyriadau teulu cyfan sy'n cydnabod y broblem ac yn mynd i'r afael â hi yn ei chyfanrwydd.
69. Er bod Llywodraeth ganol yn darparu hyd at 40% o'r arian, rydym yn bendant mai'r ffordd orau o ganfod a chynnig yr atebion yw yn lleol. Bydd angen i wasanaethau lleol, gan gynnwys yr heddlu, ysgolion, timau troseddau ieuencid ac eraill gydweithio, a gweithio gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
70. Bydd angen i wasanaethau lleol gyfrannu eu hadnoddau eu hunain i'r cynlluniau hyn a byddant yn cael arian gan y Llywodraeth ar sail y canlyniadau y byddant yn llwyddo i'w cyflawni. Bydd y rheini sy'n llwyddo i gael oedolion oddi ar fudd-daliadau ac i'r gwaith; plant oddi ar y strydoedd ac i'r ysgolion; ac sy'n gallu lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cael taliad ar sail canlyniadau.
71. Bydd gan y system cyfiawnder troseddol – Timau Troseddau Ieuencid ac Ymddiriedolaethau Prawf – ran fawr i'w chwarae yn hyn. Mae gan lawer ohonynt brofiad eisoes yn gweithio gyda theuluoedd problemus a byddant yn defnyddio'r profiad hwn o dan y rhaglen newydd.
72. Mae cysylltiad clos hefyd rhwng diwygiadau'r Papur Gwyn hwn a chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael ag **ymddygiad gwrthgymdeithasol**³⁴ a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012. Ffocws y papur yw cyflwyno camau symlach i sicrhau bod yr ymddygiad hwn yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod asiantaethau lleol yn gweithio'n gyflym ac yn effeithiol i fynd i'r afael ag ef.
73. Dyma'r diwygiadau penodol a gyflwynir:
 - canolbwyntio'u hymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar **anghenion dioddefwyr**, ac yn benodol ar flaenoriaethu dioddefwyr sydd wedi dioddef droeon neu sy'n fregus ac sy'n dioddef y niwed mwyaf;

³⁴

Rhoi Dioddefwyr yn Gyntaf - Ymatebion Mwy Effeithiol i Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cm 8367, Y Swyddfa Gartref, Mai 2012.

- grymuso cymunedau i allu penderfynu beth sy'n dderbyniol a beth nad yw'n dderbyniol yn lleol a dal asiantaethau'n atebol drwy sefydlu **Sbardun Cymunedol** newydd a fydd yn mynnu bod yr heddlu ac asiantaethau eraill yn cymryd camau lle nad ydynt wedi gwneud hynny o'r blaen, gan ei gwneud yn haws dangos yn y llys y niwed a wneir i ddioddefwyr ac i gymunedau;
 - rhoi'r pwerau y mae eu hangen arnynt i'r heddlu ac i asiantaethau lleol er mwyn iddynt ymdrin â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus sy'n achosi niwed difrifol i ddioddefwyr neu i'w cymuned, gan ddisodli'r 19 arf sydd ar gael ar hyn o bryd â chwe phŵer cyflymach a mwy effeithiol, a chyflymu proses troi tenantiaid gwrthgymdeithasol o'u cartrefi; a
 - **chanolbwyntio ar atebion tymor hir i ymddygiad gwrthgymdeithasol** drwy fynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno'r rhan fwyaf ohono yn y lle cyntaf – pyliau yfed afreolus, defnyddio cyffuriau, problemau iechyd meddwl, cefndir teulu trwblus a pherchnogion cŵn anghyfrifol.
74. Mae ein cynlluniau ni ar gyfer diwygio'r ffordd yr eir i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ategu'r rhaglen waith sydd yn y Papur Gwyn hwn i feddwl o'r newydd am y ffordd y gweinyddir cyfiawnder diannod, gan ailgysylltu'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
75. Cyhoeddodd y Llywodraeth **Gynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb**³⁵ yn ddiweddar hefyd sy'n dweud sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â throseddau casineb yn ystod gweddill y Senedd hon drwy atal troseddau casineb rhag digwydd yn y lle cyntaf; cynyddu riportio a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr; a gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb.

³⁵ *Herio, Adrodd, Atal, Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb, Y Swyddfa Gartref, Mawrth 2012.*

3. Cyfiawnder chwim

Crynodeb o'r Bennod

Rydym yn falch o draddodiadau ein system cyfiawnder troseddol ac mae hynny'n ddigon teg. Mae'n cael ei hedmygu ym mhob cwr o'r byd a dyma sylfaen systemau cyfiawnder llawer o wledydd eraill. Er ei bod yn rhaid inni gynnal ei rhagoriaeth o ran diogelu ein rhyddid hanesyddol, mae angen ei moderneiddio ar frys.

Byddai aelod o'r cyhoedd yn syfrdan petai'n ymweld â llys. Byddai'n gweld arferion gweithio haearnaidd a diwylliant sydd i bob golwg yn goddef gwastraff, oedi a methiant.

Y bobl sy'n dioddef fwyaf yn sgil y methiannau hyn yw'r dioddefwyr a'r tystion sydd wedi ymddiried yn y system, a hynny'n aml yn ystod cyfnod trawmatig yn eu bywyd. Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i foderneiddio'r system cyfiawnder troseddol drwy:

- greu system hyblyg sydd ar agor pan fydd angen iddo fod ar agor i'r cyhoedd; a
- gweddwid sut y bydd achosion yn mynd ar eu hynt drwy'r system, gan ganolbwyntio ar yr achosion syml, diwrthwynebiad hynny, sef mwyafrif helaeth yr achosion a ddaw gerbron y llysoedd troseddol.

76. Mae canolbwyntio ar atal troseddu'n elfen mor hanfodol i'n hymdrechion i sicrhau cyfiawnder chwim a chadarn ag yw'r angen i ymateb yn gadarn pan fydd troseddu'n digwydd. Atal troseddu yw'r peth iawn i'w wneud i ddioddefwyr, i'r gymdeithas ac i ddarpar droseddwyd.
77. Pan fydd troseddau'n digwydd, rhaid i'r ymateb fod yn chwim er mwyn iddo fod yn effeithiol o ran atal eraill rhag troseddu. Serch hynny, er bod llwyth achosion y broses cyfiawnder troseddol yn gostwng, mae'n dal yn araf ac yn llafurus. Mae'r diwylliant yn goddef oedi. Mae pum mis yn mynd heibio ar gyfartaledd ar ôl i droseddwyd gyflawni trosedd cyn iddo gael ei ddedfrydu yn llysoedd yr ynadon. Mae'n dal yn rhaid i dystion aros ddwy awr ar gyfartaledd cyn rhoi eu tystiolaeth yn Llys y Goron³⁶ ac awr a hanner yn llysoedd yr ynadon.³⁷ Yn y cyfamser, bydd misoedd yn mynd heibio weithiau cyn i ddioddefwyr weld y drwgweithredwyr yn cael eu cosbi.

³⁶ *Ystadegau dros dro ar brydlondeb achosion llys troseddol*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012.

³⁷ Ibid.

78. Sylweddolwn fod rhai achosion yn gymhleth o ran eu natur, y bydd y rhain yn fwy anodd eu herlyn ac y bydd angen rhagor o amser i wneud hynny. Ond bydd dros 90% o'r holl achosion troseddol (mwy na 1.5 miliwn o ddiffynyddion yn 2011) yn cael eu cwblhau yn llysoedd yr ynadon,³⁸ o'u cymharu ag oddeutu 100,000 yn Llys y Goron. Ni fydd gwrthwynebiad i'r rhan fwyaf o'r achosion hyn, naill ai oherwydd na fydd y diffynnydd yn ymwneud â'r broses o gwbl, neu oherwydd ei fod yn penderfynu pledio'n euog yn ystod rhyw gam yn yr achos.
79. Felly, mae lle i ymdrin yn wahanol â throseddu, ac yn ein diwygiadau i sicrhau system chwim, ar yr achosion syml, uniongyrchol a diwrthwynebiad hyn y byddwn yn canolbwyntio. Yn yr adran hon, dywedir beth yr ydym yn ei wneud i ddileu gwastraff a lleihau nifer yr achosion sy'n methu, gan sicrhau newid mawr yn y ffordd y darperir gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Rydym hefyd yn sôn am y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud eisoes a sut mae'r rhain wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y canlyniadau i ddioddefwyr, i dystion ac i'r cyhoedd.

Creu system i sicrhau cyfiawnder chwim

80. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud eisoes wrth fynd i'r afael ag achosion gwastraff a methiant. Prif ffocws ein gwaith dros y 12 mis nesaf felly fydd atgyfnerthu hyn:
- parhau i ganolbwyntio'n ddi-baid ar wella, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio rhwng asiantaethau;
 - cynorthwyo'r farnwriaeth i roi'r *cynllun Pledio'n Euog yn Gynnar* ar waith ym mhob un o ganolfannau Llys y Goron, a sicrhau bod *Atal Oedi mewn Cyfiawnder* yn bwrw gwreiddiau yn llysoedd yr ynadon (mae rhagor o fanylion am y cynlluniau hyn i'w gweld isod); a
 - sicrhau bod technoleg yn bwrw gwreiddiau ac ymestyn ei defnydd i gefnogi a galluogi'r diwygiadau hyn (mae'r manylion llawn i'w gweld ym Mhennod 5).
81. Bwriedir i lawer o'r diwygiadau chwim a chadarn sydd yn y Papur Gwyn hwn roi dulliau symlach ar waith o ymdrin â throseddau lefel-isel, diannod, megis dwyn o siopau. Ar hyn o bryd, bydd 38 diwrnod yn mynd heibio ar gyfartaledd rhwng cyhuddo pobl o'r achosion hyn a'u cwblhau ond gwyddom mai'r rheswm dros hyn yw oherwydd bod cyfran fach o achosion yn cymryd cyfnod sylweddol hwy na hyn i'w cwblhau.³⁹ Bydd oddeutu hanner yr achosion hyn yn cymryd 18 diwrnod neu lai i'w cwblhau ar ôl y cyhuddiad. Pe gallai ein diwygiadau sicrhau bod pob

³⁸ *Ystadegau Cyfiawnder Troseddol, Diweddariad Chwarterol hyd at fis Rhagfyr 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mai 2012.*

³⁹ *Ystadegau dros dro ar brydlondeb achosion llys troseddol, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012.*

achos yn cael ei gwblhau o fewn 18 diwrnod fan hwyaf, amcangyfrifwn y byddai 25 diwrnod yn cael eu harbed ar gyfartaledd, sy'n golygu na fyddai cyfartaledd yr amser rhwng y cyhuddiad a'r cwblhau ar gyfer yr achosion hyn ond yn 13 diwrnod.

Rydym eisoes wedi ... dechrau gwella effeithlonrwydd

Mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyd wedi cael eu herio i gynnal ansawdd eu gwasanaethau wrth iddynt leihau eu costau. Er mwyn eu helpu i gyflawni hyn, maent wedi bod yn rhoi technegau gwella parhaus ar waith megis QUEST i wasanaeth yr heddlu, LEAN yn GLITEM, a'r Model Busnes Gorau yng Ngwasanaeth Erllyn y Goron. Mae'r technegau hyn yn cynnig ffordd drefnus o fynd ati i weld beth sy'n achosi gwastraff, oedi ac aneffeithlonrwydd yn y prosesau a ddefnyddir ganddynt i ddarparu eu gwasanaethau.

Mae QUEST yn canolbwyntio ar bedair prif egwyddor:

- mae'n canolbwyntio'n ddi-baid ar greu data sydd wedi'u mesur ac yna'u defnyddio i ddisgrifio bywyd go iawn a rhagweld newid go iawn;
- nid adroddiadau ac argymhellion yw hanfod y gwaith hwn. Mae a wnelo â chynllunio atebion a'u rhoi ar waith yn gyflym;
- swyddogion a staff y prosiect sy'n ei roi ar waith, gan gydweithredu â swyddogion sy'n gyfrifol am faes y broses; ac
- mae diwylliant y sefydliad yn newid nes bod datrys problemau drwy gydweithredu'n dod yn norm.

Cyfiawnder troseddol hyblyg

82. Mae angen inni sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn gallu ymateb mewn ffordd hyblyg sy'n cydweddu ag anghenion dioddefwyr a chymunedau ac sy'n sicrhau bod troseddwr yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd, a hynny'n gyflym.
83. Rydym yn glir, fodd bynnag, nad aros ar agor am fwy o oriau yw'r ateb i gyd. Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn newid diwylliant y system cyfiawnder troseddol, yn darparu gwasanaethau lle mae eu hangen, yn hytrach na phan fydd hynny'n hwylus i ddarparwyr.
84. Mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn ymatebol ac yn hyblyg ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain. Bydd hyn yn cynnwys dod â diffynyddion i'r llys yn gyflym ar ôl iddynt gyflawni trosedd, a defnyddio Llysoedd Rhithiol i alluogi diffynyddion i ymddangos drwy gyswllt fideo rhwng un o orsafoedd yr heddlu a'r llys. Os bydd gofyn, bydd llysoedd hefyd yn eistedd yn gynharach ac yn hwyrach yn y dydd ac ar benwythnosau i ymdrin ag achosion.
85. Rydym hefyd wedi gwahodd partneriaethau cyfiawnder troseddol lleol i gydweithio er mwyn cyflwyno cynigion ar gyfer rhoi dulliau hyblyg newydd ar brawf yn eu hardaloedd. Bydd eu cynigion yn rhan o gyfres o

gynlluniau peilot y byddwn yn eu rhoi ar brawf yn ystod eleni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llysoedd ynadon yn eistedd o 8:30 ymlaen ar gyfer gwrandawiadau Cyswllt Fideo rhwng y Carchar a'r Llys, sy'n golygu na fydd angen trefnu cludo cynifer o ddiffynyddion i'r llys.
- cynnal treialon yn llys yr ynadon dros y penwythnos; ac
- eisteddiadau'n hwyrach gyda'r nos yn llysoedd yr ynadon i ymdrin â'r rheini a fyddai fel arall o bosibl yn cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu dros nos, gan gynnwys defnyddio technoleg cyswllt fideo.

86. Drwy brofi a gwerthuso dulliau fel hyn, byddwn yn deall yn well sut y gellir gweinyddu cyfiawnder yn chwim ac yn gadarn i bob dioddefwr, ac fe gawn y data angenrheidiol er mwyn inni allu llunio rhaglen diwygio tymor hir.

Mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol eisoes wedi ... dechrau gweithredu'n fwy hyblyg

Wrth ymateb i helyntion 2011, dangosodd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r gymuned amddiffyn y gallent gydweithio'n gyflym ac yn hyblyg i sicrhau cyfiawnder. Yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, bu'r llysoedd yn eistedd am fwy o oriau, drwy'r nos a dros y penwythnos mewn ambell ardal, er mwyn gallu dwyn achosion ger eu bron yn gyflym, o fewn ychydig oriau weithiau.

Roedd yr ymateb cydgysylltiol hwn gan y system cyfiawnder troseddol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y rhai a arestwyd yn cael eu dwyn yn gyflym o gelloedd yr heddlu i'r llysoedd i wynebu gwrandawriad chwim ond teg a bod diffynyddion yn cael eu cadw ar remand lle'r oedd y llysoedd yn gorchymyn hynny. Mae angen i'r system cyfiawnder troseddol adeiladu ar sail y profiad hwn.

Yn draddodiadol, mae'r llysoedd wedi gweithredu rhwng 10.00am a 5.00pm ar ddiwrnodau'r wythnos. Serch hynny, bydd llysoedd yr ynadon yn eistedd y tu allan i'r oriau hyn yn rheolaidd, ar y penwythnos ac ar Wyliau Banc, gan ymateb i ofynion lleol penodol, er enghraifft, i ymdrin â materion y mae'r heddlu wedi'u codi gyda'r nos, nos Wener a dros y penwythnos, neu i faterion eraill y mae angen eu dwyn gerbron y llysoedd ar frys (er enghraifft, gwarant cadw o dan glo'n hwy) Bydd hyd at 100 o lysoedd drwy Gymru a Lloegr yn agor bron bob dydd Sadwrn i ymdrin â'r mathau hyn o fusnes.

Bydd llysoedd hefyd yn agor ar y Sul weithiau os bydd galw lleol, er enghraifft, er mwyn ymateb i gamau sydd wedi'u targedu neu ddigwyddiadau lleol.

Y Cynllun Pledio'n Euog yn Gynnar a threfniadau da i reoli achosion yn Llys y Goron

87. Yn Llys y Goron yr ymdrinnir â'r achosion mwyaf cymhleth a difrifol. Mae'r farnwriaeth yn arwain rhaglen i newid y diwylliant a'r agwedd at reoli achosion yn Llys y Goron, a elwir yn *Gynllun Pledio'n Euog yn Gynnar*.
88. Yn anad dim, bydd ple euog cynnar yn arbed dioddefwyr a thystion rhag y profiad o roi tystiolaeth ac yn sicrhau eu bod yn gweld cyfiawnder yn cael ei wneud yn fwy chwim. Bydd ple cynnar a dod â'r cyfan i ben yn gyflymach hefyd yn arbed gwaith ac arian i'r system cyfiawnder troseddol. Gall ple euog cynharach fod o fudd i'r diffynnydd hefyd oherwydd bydd ef neu hi'n cael y credyd mwyaf sydd ar gael ar gyfer hynny, bydd yn fwy sicr ynglŷn â'r ddedfryd debygol ac efallai y bydd modd iddo wedyn ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at geisio sicrhau na fydd yn troseddu eto. Gorau po gyntaf y bydd troseddwy'r yn wynebu eu gweithredoedd.
89. Mae'r dull hwn yn cael ei roi ar waith ochr yn ochr â chanolbwyntio o'r newydd ar reoli achosion mewn ffordd effeithiol. Bwriad hyn yw sicrhau bod y materion sy'n destun anghydfod mewn achosion a wrthwynebir, yn cael eu canfod yn gynharach ac mai dim ond y tystion hynny yr herir eu tystiolaeth y bydd gofyn iddynt fod yn bresennol. Os bydd gofyn i dystion ddod i'r llys, bydd y Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion i roi tystiolaeth drwy fideo lle bo hynny'n briodol ac er budd cyfiawnder. Eglurir ein cynlluniau i ddefnyddio fideo ym Mhennod 5.

Mae'r farnwriaeth eisoes ... yn cynnal cynllun peilot ar gyfer Pledio'n Euog yn Gynnar

Datblygwyd y Cynllun Pledio'n Euog yn Gynnar Llys y Goron gyntaf yn Llys y Goron yn Lerpwl ac wedyn cynhaliwyd cynllun peilot yn Llys y Goron yng Nghaer-wynt, ym Mryste ac yn Reading. Defnyddir profiad yr ardaloedd hyn i oleuo penderfyniadau'r uwch farnwriaeth ynglŷn ag ymestyn y cynllun i fannau eraill.

Yn y cynlluniau peilot hyn, bydd erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn nodi'r achosion yn Llys y Goron lle bydd rhywun yn debygol o bledio'n euog, ac wedyn, fe'u rhestrir ar gyfer gwrandawriad cynnar. Rhagdybir y bydd diffynyddion sy'n pledio'n euog yn y gwrandawriad hwnnw'n cael y gostyngiad mwyaf sydd ar gael ar eu dedfryd, tra bo'r rheini sydd wedyn yn newid eu ple ac yn pledio'n euog yn debygol o gael llai o ostyngiad, a dibynnu ar ba bryd yn ystod yr achos y cynigir y ple hwnnw.

Hyd yn hyn, mae'r canlyniadau wedi bod yn addawol, gyda llawer o'r diffynyddion yn yr achosion a restrwyd ar gyfer gwrandawriad cynnar yn pledio'n euog. Mae cwblhau'r achosion hyn yn gyflymach wedi golygu arbed amser ac arbedion effeithlonrwydd eraill i bawb sy'n defnyddio'r llysoedd. Mae o fudd i dioddefwyr a thystion hefyd sy'n cael gwybod yn gynharach a fydd gofyn iddynt fynd drwy broses rhoi tystiolaeth a chael eu croesholi yn ei chylch.

Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno mewn 28 o ganolfannau Llys y Goron, sef oddeutu traean o ystâd Llys y Goron. Bydd ar waith mewn 28 llys arall erbyn yr hydref ac yng ngweddill y llysoedd erbyn gwanwyn 2013.

Trefniadau da ar gyfer rheoli achosion yn llysoedd yr ynadon

90. Cynllun a ddatblygwyd gan y farnwriaeth yw Atal Oedi mewn *Cyfiawnder* sy'n ceisio sicrhau canlyniad tebyg yn achosion llysoedd yr ynadon, lle y gwrandewir dros 90% o'r achosion troseddol. Ei nod yw mynd i'r afael ag oedi ac aneffeithlonrwydd drwy gyfrwng trefniadau cryfach i reoli achosion, gan sicrhau bod pawb yn deall yn glir beth yw sail yr amddiffyniad a'r dystiolaeth sydd i'w herio.
91. Mae nifer o ddiwygiadau, sydd hefyd yn cynnwys ein cynigion i rymuso ynadon unigol i ymdrin ag achosion diwrthwynebiad (gweler Pennod 4), yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy gyda'r nod o ymdrin yn gyflym â throseddau llai difrifol, dwyn o siopau er enghraifft.

Rydym eisoes wedi ... symleiddio'r ffordd y darperir cyfiawnder troseddol

Mae nifer o ddiwygiadau eraill yr ydym wedi'u cyflwyno i symleiddio, mireinio a safoni'r ffordd y darperir ein gwasanaethau.

Rydym wedi cynyddu nifer y troseddau syml lle y caiff yr heddlu benderfynu erlyn heb gyfeirio'r achos yn gyntaf at Wasanaeth Eryl y Goron, gan ryddhau swyddogion yr heddlu rhag gorfod treulio amser yn cyfeirio achos at GEG a sicrhau bod llai o angen trefnu mechnaeth ar gyfer diffynyddion sydd o dan amheuaeth er mwyn iddynt ddychwelyd i glywed penderfyniad ynglŷn â chyhuddiad. Mae hyn yn arbed amser i GEG hefyd wrth ymdrin â chyhuddiadau ar gyfer mân achosion.

Rydym hefyd yn cynnal cynllun peilot lle bydd yr heddlu'n penderfynu beth fydd y cyhuddiad mewn achosion dwyn o siopau lle na ragwelir y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog a byddwn yn gwerthuso effaith hyn yn ofalus. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddar hefyd y bydd yr heddlu'n gallu erlyn mân droseddau traffig pan na fydd y diffynnydd yn pledio neu pan fydd y diffynnydd heb ymddangos yn y llys. Mae hyn yn ychwanegol at yr achosion traffig y caiff yr heddlu eu herlyn lle bydd diffynnydd eisoes wedi pledio'n euog drwy'r post.

Ar 18 Mehefin, dechreuwyd rhoi deddfwriaeth ar waith sy'n dileu gwrandawliadau traddodi ar gyfer achosion naill ffordd sydd i'w treialu yn Llys y Goron, gan ddileu'r angen am wrandawriad nad yw'n ychwanegu fawr ddim gwerth at achos.

92. Lanswyd cynllun *Atal Oedi mewn Cyfiawnder* ym mis Ionawr pan gyhoeddwyd canllawiau'n gosod disgwyliadau clir ar bob parti ynglŷn â sut y dylid rheoli achosion, ochr yn ochr ag arfau eraill, gan gynnwys fideos, ac astudiaethau achos, i gynorthwyo ymarferwyr. Mae cyfres o

weithdai rhanbarthol a seminarau hyfforddi wedi'u trefnu i ynadon a chynghorwyr cyfreithiol i'w cynorthwyo i roi'r rhaglen ar waith. Rydym bellach yn gweithio gyda'r farnwriaeth i gytuno sut orau mae monitro'r effaith.

93. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r farnwriaeth i roi ar waith argymhellion yr Arglwydd Ustus Gross ynglŷn â datgelu er mwyn lleihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.

Symleiddio adroddiadau fforensig

94. Gall tystiolaeth fforensig chwarae rhan hanfodol yn dod â throreddwyr gerbron cyfiawnder. Yn Llundain, mae'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol wedi bod yn cynnal trefniadau peilot symlach ar gyfer comisiynu a defnyddio adroddiadau fforensig mewn ymchwiliadau troseddol.
95. Mae'r cynllun peilot wedi dangos nifer o fanteision posibl yn y ffordd y gall achosion fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys:
 - **llai o berygl i'r achos beidio â mynd rhagddo**, a hynny, mae'n debyg, am fod papurau achosion yn cael eu paratoi'n well ac am fod yr amddiffyniad yn cael gwybod am y dystiolaeth cyn gynted byth ag sy'n bosibl;
 - **gwella'r gyfradd sy'n pledio'n euog yn gynnar**, gan arwain at lai o achosion yn dod i dreial yn ddiangen, a chan helpu i liniaru'r pwysau ar ddyddiadau treialon a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny;
 - **llai o achosion lle bydd angen tystiolaeth fforensig ychwanegol**, gan arbed amser a chostau sy'n gysylltiedig â chasglu'r dystiolaeth hon.
96. Byddwn yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo mabwysiadu'r broses adroddiadau fforensig symlach ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan ddisgwyl iddi fod ar waith yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd cyfiawnder troseddol erbyn mis Mawrth 2013.

Cam nesaf y diwygio er mwyn creu system sy'n fwy chwim

97. Fel rhan o raglen *Trawsnewid Cyfiawnder* y Weinyddiaeth Cyfiawnder, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cam nesaf diwygio cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu mewn ffordd deg, effeithiol a fforddiadwy. Drwy ddilyn y trywydd hwn, byddwn yn ystyried sut orau mae rhoi gweledigaeth y Llywodraeth ar waith ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus drwy'r system cyfiawnder troseddol.
98. Mae pob rhan o'r system wedi gorfod ymateb i'r her effeithlonrwydd. Mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gwneud hyn fwyfwy drwy gydweithio ar draws y system yn hytrach nag mewn cylchoedd ynysig. Ym Mhennod 7, byddwn yn canolbwyntio ar ddileu biwrocratiaeth a'r

rhwystrau rhag gweithio ar draws y system er mwyn sicrhau cyfiawnder chwim a chadarn.

99. Gall dibynnu ar bapur fod yn rhwystr rhag gweithio mewn ffordd fwy hyblyg. Mae'n bosibl i bobl roi ffeiliau yn y man anghywir neu fe all papurau hollbwysig fynd ar goll, gan arwain at oedi a gohirio. Gall fod yn ddrud i ddiffynyddion ymddangos gerbron llys; i ddiodefwr, gall fod yn brofiad trawmatig sy'n tarfu ar eu bywyd. Mae technoleg yn ffordd bwysig o alluogi cyfiawnder chwim a chadarn. Mae'n golygu bod modd symleiddio a mireinio achosion, er mwyn gallu eu cynnal yn gyflymach a'u darparu'n fwy effeithlon. Ym Mhennod 5, byddwn yn ystyried pa ddiwygiadau technolegol eraill y mae gofyn eu cael er mwyn galluogi mwy o gydweithio gan drawsnewid cyfiawnder troseddol drwy droi system araf ar bapur yn wasanaeth digidol di-fwlch.

4. Cyfiawnder cadarn

Crynodeb o'r Bennod

Rhaid i'r ymateb i droseddu fod yn chwim er mwyn bod yn effeithiol. Ond mae angen i'r ymateb fod yn iawn hefyd:

- ymyrryd yn gynnar er mwyn cael gafael ar broblemau a'u hatal rhag gwaethygu;
- cynnwys cymunedau yn y ffordd y bydd y system cyfiawnder troseddol yn ymateb i droseddu yn eu hardaloedd;
- gorfodi cosbau iawn ac effeithiol ar y rheini a geir yn euog o ymddygiad troseddol; ac
- agor gwasanaethau i gyflenwyr newydd a syniadau newydd, gan dalu iddynt ar sail canlyniadau.

100. Nid cyflymder yw'r unig ystyriaeth wrth ddiwygio cyfiawnder troseddol er mwyn iddo ymateb i ofynion y cyhoedd. Mae a wnelo hefyd â'r math o gyfiawnder a ddarperir. Rhaid i'r cyfiawnder hwn fod yn gadarn, yn gyfiawnder lle mae'r canlyniad yn deg, ac yn gyfiawnder sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd.
101. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid cael gafael ar droseddu ar unwaith, ni waeth pa mor ddibwys, er mwyn ei ffrwyno. Wrth fethu gwneud hynny, nid yn unig y bydd gennym broblem sydd heb ei datrys, ond bydd perygl hefyd iddo waethygu pethau drwy anfon y neges anghywir at droseddwyr, sef y caiff eu hymddygiad ei anwybyddu. Gallwn fynd i'r afael â hyn drwy ymdrechu i gynorthwyo'r rhai mwyaf anghenus, lle bydd angen ymateb ehangach gan y gymdeithas. Un enghraifft o'r canolbwyntio hwn ar atal yw ein gwaith gyda *Theuluoedd Trwblus*.
102. Drwy gyfrwng ein cynlluniau ar gyfer ailystyried cyfiawnder diannod (gweler paragraff 117 isod), cryfhau'r elfen adferol yn ein dedfrydu; sicrhau bod pob dedfryd gymunedol yn cynnwys elfen o gosb; ac adeiladu ar gryfderau cyfiawnder adferol mewn cymunedau drwy ddatblygu Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth, rydym ar ddechrau proses sicrhau bod cyfiawnder yn gadarn: ei fod yn effeithio ar droseddwyr ac yn eu gorfodi i ddod wyneb yn wyneb â'u gweithredoedd. Yn rhy aml, bydd y system yn ymateb i brofiadau bywyd troseddwyr yn hytrach na'u ffurfio. Mae cyfiawnder cadarn yn mynnu bod y gosb yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r sawl a fyddai'n troseddu ei wynebu ar unwaith, yn hytrach nag yn rhywbeth sydd ymhell i ffwrdd.

Creu system i sicrhau cyfiawnder cadarn

103. Mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer cyfiawnder cadarn yn cyflwyno egwyddor talu ar sail canlyniadau. Mae hyn yn newid o bwys yn y ffordd yr ariennir gwasanaethau a'r nod yw darparu'r cymhellion iawn i wasanaethau ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniad iawn: llai o droseddu. Dyma'r dull sy'n sail ar gyfer datblygu marchnad ehangach a mwy amrywiol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, datgloi arloesi a hybu dulliau newydd, creadigol o fynd i'r afael â throseddu, sy'n cael eu gwobrwyo ar sail eu canlyniadau.
104. Mae talu ar sail canlyniadau'n elfen bwysig yn y diwygiadau yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy ym maes rheoli troseddwy. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ymwneud ar hyn o bryd â nifer o gynlluniau peilot yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer troseddwy, er enghraifft, gwasanaethau adsefydlu i'r rheini sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned neu i droseddwy ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Yr hyn sy'n gyffredin iddynt yw eu bod yn cael eu talu ar sail i ba raddau y maent yn llwyddo i leihau aildroseddu. Mae cynlluniau peilot ar waith hefyd sy'n ailfuddsoddi mewn cyfiawnder lle bydd ardaloedd yn rhannu unrhyw arbedion a wneir drwy leihau'r galw ar y system cyfiawnder troseddol.
105. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i weld sut y gallai talu ar sail canlyniadau gymhell y sector trin cyffuriau i gyflawni ym maes canlyniadau adferol. Lansiodd wyth cynllun peilot ym mis Ebrill 2012 ac mae cynnwys canlyniad troseddun cryfhau eto fyth y cymhellion i gynnwys troseddwy a chyn-droseddwy yn y rhaglenni a lleihau eu defnydd ar gyffuriau ac alcohol yn gynnar yn y broses.
106. Mae'r cynlluniau hyn yn torri tir newydd ac yn rhai radical. Mae ein cynlluniau i ddatblygu'r dull hwn ar raddfa ehangach wrth reoli dedfrydau cymunedol, ac wrth ddarparu ystod ehangach o wasanaethau prawf, wedi'u hegluro yn y papurau ymgynghori a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2012.⁴⁰
107. Mae a wnelo cyfiawnder cadarn â mwy na dim ond sut y byddwn yn ymdrin â throseddwy ar ôl iddynt droseddu. Mae talu ar sail canlyniadau'n sylfaen hefyd i raglen *Teuluoedd Trwblus* y Llywodraeth. Mae hon yn targedu'r 120,000 o deuluoedd sy'n wynebu'r problemau mwyaf difrifol ac sy'n achosi'r niwed mwyaf difrifol. Mae manylion llawn y rhaglen i'w gweld ym Mhennod 2.

⁴⁰ Gweler troednodiadau 30 a 31.

Cam nesaf y diwygio i sicrhau cyfiawnder cadarn

108. Mae cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n newid sylfaenol o ran polisi a fydd yn helpu i drawsnewid atebolrwydd lleol a sicrhau cyfiawnder cadarn, tra bydd y camau diogelu'n sicrhau bod annibyniaeth y farnwriaeth ac erlynwyr yn cael ei chynnal. Mae ein cynlluniau ar gyfer Panelau Cyfiawnder Cymdogaeth (gweler tudalen 3 isod) yn enghraifft dda o sut y gall yr asiantaethau cyfiawnder troseddol gydweithio i sicrhau atebion effeithiol, sy'n cael eu llywio gan y gymuned, ac sy'n cael gafael ar droseddu'n gynnar, cyn iddo waethygu.

Y Prawf Cyfiawnder

109. Credwn mai gweithwyr proffesiynol lleol sydd yn y lle gorau i benderfynu sut orau mae ymdrin â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau. Rydym eisoes wedi cymryd ambell gam i roi'r grym yn ôl iddynt ddefnyddio'u crebwyll wrth ymdrin â materion sy'n dod ger eu bron (er enghraifft drwy ddileu targedau canolog, a rhoi'r cyfrifoldeb i'r heddlu am erlyn troseddau traffig llai difrifol penodol).
110. Mae'n iawn i weithwyr proffesiynol allu defnyddio'u crebwyll, ond rhaid cael fframwaith clir er mwyn iddynt wneud hynny.
111. Sancsiynau sydd ar gael i'r heddlu i ymdrin â mathau penodol o droseddau y byddant yn eu hwynebu yw'r dulliau cwblhau y tu allan i'r llys. Pan gaiff y rhain eu defnyddio'n briodol, credwn eu bod yn arfau syml a defnyddiol i ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol â mân droseddu gan droseddwyr risg-isel, yn enwedig pan fyddant yn cynnwys elfen o wneud iawn. Serch hynny, o'u defnyddio'n amhriodol, gallant danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.
112. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'u defnyddio, ac er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i roi eu crebwyll ar waith yn briodol ac yn deg, bwriadwn ddatblygu Prawf Cyfiawnder. Bydd hyn yn creu fframwaith syml nad yw'n fiwrocraidd a fydd yn mynegi'n glir y ffactorau y dylai swyddogion yr heddlu ar lawr gwlad eu hystyried wrth benderfynu sut orau mae ymdrin â materion sydd ger eu bron ac a fyddai sancsiwn y tu allan i'r llys yn briodol. Rhagwelwn y bydd llawer o swyddogion yn croesawu hyn am ei fod yn arf cyflym, syml a defnyddiol i'w helpu i wneud penderfyniadau. Credwn hefyd y bydd o help i erlynwyr pan fydd swyddogion yr heddlu'n gofyn iddynt weithiau am gyngor ynglŷn â chwblhau achosion y tu allan i'r llys neu'n gofyn iddynt awdurdodi hynny.
113. Ni fwriedir i'r Prawf Cyfiawnder ddisodli Cod y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i Erlynwyr y Goron.⁴¹ Yn hytrach, bydd y Prawf Cyfiawnder yn arf defnyddiol i weithwyr proffesiynol, a bydd hefyd yn helpu'r

⁴¹ Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Chwefror 2010.

cyhoedd i ddeall y system cyfiawnder troseddol yn well a deall sut y gwneir penderfyniadau ynglŷn â defnyddio sancsiynau y tu allan i'r llys.

114. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu'n arwain ac yn cydweithio i ddatblygu manylion y Prawf Cyfiawnder.

Goruchwyllo sancsiynau y tu allan i'r llys

115. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â defnyddio sancsiynau y tu allan i'r llys ac er mwyn tawelu meddwl y cyhoedd eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol, mae rhai ardaloedd wedi sefydlu mecanwaith goruchwyllo. Yn y meysydd hyn, bydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys ynadon, yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu sampl o achosion lle maent wedi cael eu defnyddio. Crynhoir enghraifft o'r dull a gyflwynwyd yn Hampshire isod.
116. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r dull hwn ac mae'n cefnogi'n benodol gynnwys ynadon lleol yn y trefniadau hyn. Ond rydym hefyd yn sylweddoli bod hyn yn rhywbeth y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n debygol o ddangos diddordeb ynddo. Felly, byddwn yn gweithio gydag ardaloedd cyfiawnder troseddol lleol, a chyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, i'w hannog i ystyried sut y byddai'r dulliau hyn, neu ddulliau tebyg, yn gweithio orau yn eu hardaloedd.

Panel Craffu Cwnstabiliaeth Hampshire

Mae Cwnstabiliaeth Hampshire wedi sefydlu panel craffu i archwilio sut y defnyddir atebion cymunedol yn ardal y llu.

Bydd y panel, sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu, cynrychiolwyr yr Uned Cyfiawnder Troseddol leol, rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid ac ynad lleol, yn cyfarfod bob yn ail fis i adolygu sut mae'r heddlu'n defnyddio atebion cymunedol.

Bydd y panel yn adolygu sampl o achosion ac yn ystyried a oedd y penderfyniadau ym mhob achos yn briodol. Bydd y cadeirydd a staff tîm cwblhau achosion y tu allan i'r llys yr Uned Cyfiawnder Troseddol yn dethol yr achosion er mwyn iddynt gynrychioli trawstoriad gan gyfeirio at unrhyw achosion sydd, i bob golwg, ar y ffin neu'n ddadleuol.

Os bydd y panel yn casglu bod y penderfyniad i ddefnyddio ateb cymunedol mewn achos penodol yn amhriodol, byddir yr wybodaeth hon yn ôl i oruchwyllydd neu swyddog yr achos. Ambell waith, mae adborth o'r fath wedi arwain at newid y dull cwblhau. Os tybir nad yw hyn yn briodol, neu os yw'r achos wedi'i gwblhau eisoes, bydd yr adborth yn gyfrwng dysgu.

Ailfeddwl am gyfiawnder diannod

117. Bydd y diwygiadau sydd wedi'u cyflwyno eisoes o gymorth i fynd i'r afael ag oedi a chael gafael cadarn ar droseddwr. Ond credwn y gallwn fynd gam ymhellach, gan sicrhau cyfiawnder cadarn sydd â chysylltiad go iawn â chymunedau lleol, gan roi llais iddynt yn y ffordd yr ymdrinnir â throseddau a gyflawnir yn y cymunedau hynny, a chan drawsnewid system ddarniog cyfiawnder troseddol yn wasanaeth di-fwlch. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar yr achosion syml, uniongyrchol hynny a'r rheini'n aml yn rhai diwrthwynebiad, sef y rhan fwyaf helaeth o waith llysoedd yr ynadon. Mae hyn yn rhan o'n hymagwedd ehangach at sicrhau bod cymunedau'n ymwneud â gwaith y system cyfiawnder troseddol, ac mae cysylltiad clos rhyngddo â'r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar i ymateb yn fwy chwim ac yn fwy effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.
118. Ynadon yw'r ddolen gyswllt allweddol rhwng y system cyfiawnder troseddol a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rydym wedi achub ar gyfle'r adolygiad hwn i ymchwilio i ddiwygiadau mwy sylfaenol yn y ffordd y bydd ynadon yn ymdrin â throseddau lefel-isel drwy ymdrin â hwy'n fwy lleol ac yn fwy chwim ac mewn ffordd sy'n llai costus a biwrocrataidd.

Rydym eisoes wedi ... dechrau ailgysylltu cyfiawnder â chymunedau

Partneriaeth rhwng asiantaethau lleol, yr heddlu ac awdurdodau lleol, a'r gymuned leol yw Panelau Cyfiawnder Cymdogaeth. Eu nod yw mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu lefel-isel lle y gellir ymdrin â hyn yn briodol yn y gymuned a chan y gymuned, drwy ateb adferol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion y dioddefwr, gwneud iawn am y niwed a wnaed i'r gymuned, ac osgoi troseddoli diangen (yn enwedig felly bobl ifanc).

Hwylusir panelau gan wirfoddolwyr yn y gymuned a byddant yn dod â throseddwr a dioddefwr at ei gilydd, gan gynnwys cynrychiolwyr y gymuned berthnasol. Yn hytrach na chymodi rhwng dadleuon croes, bydd panelau'n ceisio defnyddio cyfryngu er mwyn sicrhau cytundeb ymhlith y partïon

Nod y panelau yw sicrhau gwell canlyniadau i ddioddefwr a chryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd drwy sicrhau bod y troseddwr yn gwneud iawn mewn ffordd sy'n amlwg i'r gymuned ehangach. Wrth lwyddo, bydd y panelau'n cyflawni hyn a hefyd yn pwysu ar y troseddwr i sylweddoli'r effaith niweidiol a gaiff eu gweithredoedd.

Drwy hyrwyddo cyfraniad ynadon fel aelodau o'r gymuned, rydym yn gobeithio elwa o'u sgiliau a'u profiad a hefyd yn gobeithio codi pont arall rhwng cymunedau lleol a'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol.

Rydym yn gweithio gyda 15 o ardaloedd lleol i roi'r dull panelau ar brawf. Ond megis dechrau yw hyn. Ein gobaith ni yw y bydd y gwaith sydd ar y gweill gyda'r panelau'n paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o arloesi'n lleol, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng y system cyfiawnder troseddol a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Rôl ynadon

119. Cyfiawnder sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd yw cyfiawnder cadarn. Ein nod yw hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder lleol a gweinyddu cyfiawnder yn briodol drwy roi ynadon wrth galon y system cyfiawnder troseddol yn eu cymunedau, gan sicrhau bod eu hannibyniaeth farnwrol yn cael ei gwarchod.
120. Ar hyn o bryd, achosion lefel-isel diwrthwynebiad yw cyfran sylweddol o lwyth gwaith llysoedd yr ynadon. Mae'r rhain yn cynnwys achosion megis ymddygiad afreolus, dwyn o siopau a throeddau difrod troseddol, lle mae'r heddlu wedi cyhuddo'r diffynnydd o'r trosedd ac y rhagwelir y bydd yn pledio'n euog. Mae'r troseddau hyn yn aml yn fwy perthnasol i'r hyn sy'n poeni'r gymuned ac efallai y byddai o fudd ymdrin â hwy'n lleol.
121. Un syniad yr ydym yn ei ystyried yw y gellid grymuso un ynad lleyg, yn hytrach na mainc o ddau neu dri, i ymdrin â rhai o'r achosion hyn, neu â phob un ohonynt, drwy broses fwy effeithlon a syml.
122. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd llysoedd yr ynadon yn ymdrin hefyd â nifer fawr o droseddau rheoleiddio diwrthwynebiad lle na fydd y diffynnydd bron byth yn chwarae rhan weithredol yn yr achos (er enghraifft, achosion yn ymwneud â thrwyddedau teledu, treth cerbydau'r ffordd ac osgoi talu am docyn teithio). Credwn nad oes angen defnyddio amser gwerthfawr llysoedd yr ynadon ar gyfer yr achosion hyn ac y gallai un ynad ymdrin â'r rhain hefyd yn fwy chwim a chyda llai o fiwrocratiaeth, gan gynnal, ar yr un pryd, hawl y diffynnydd i gael gwrandawriad teg ac agored.
123. Byddwn yn dal i ddatblygu'r cynigion hyn, gan weithio gydag ymarferwyr, ynadon ac eraill yn y system cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â'r mathau hyn o achosion. Byddem yn croesawu barn pobl i'n helpu i ddatblygu'r cynigion hyn. Mae manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni i'w gweld ar dudalen 3.

Lleihau biwrocratiaeth: achosion traffig y ffyrdd

Troseddau traffig lefel-isel yw llawer iawn o'r gwaith y bydd yr heddlu, y gwasanaeth erlyn a'r llysoedd yn ymdrin â hwy. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, bydd y troseddwr yn pledio'n euog drwy'r post, ac mae'r darpariaethau presennol yn caniatáu i'r heddlu erlyn yr achosion diwrthwynebiad hyn heb orfod cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron. Serch hynny, fel sy'n wir am achosion eraill o'r math hwn, bydd cyfran sylweddol na fyddant yn pledio drwy'r post nac yn dod i'r llys, sy'n golygu ei bod yn rhaid gohirio'r achosion hyn a'u trosglwyddo i Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn i'r gwasanaeth hwnnw ymdrin â hwy. Canlyniad hyn yw dyblygu ymdrech ac oedi diangen.

Mae'r Ysgrifennydd Cartref eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn i'r heddlu allu parhau i erlyn y mathau hyn o achosion, heb orfod cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron. Byddwn yn gweithio gyda heddluoedd dethol, gyda'r llysoedd a chyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu manylion y cynigion hyn ac i sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu symleiddio gymaint ag y bo modd.

Byddwn hefyd yn ymestyn y dull hwn i ystod ehangach o droseddau lefel-isel diwrthwynebiad, lle bydd y model symlach hwn, sy'n cael ei lywio gan yr heddlu, yn briodol. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd yr heddlu'n gallu erlyn 50% o'r achosion yn llysoedd yr ynadon, gan ddileu'r holl fiwrocratiaeth ddiangen.

Cadw mwy o achosion yn llysoedd yr ynadon

124. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr achosion naill ffordd⁴² a draddodir i Llys y Goron ar gyfer treial wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2011, traddodwyd oddeutu 7,400 yn fwy o achosion naill ffordd ar gyfer treial yn Llys y Goron o'u cymharu ag yn 2003, cynnydd o 14%.⁴³ Serch hynny, credwn y gallai ynadon ymdrin â rhai o'r achosion naill ffordd a ddedfrydwyd yn Llys y Goron.
125. Mae hyn yn anfoddhaol i ddiodefwr a thystion oherwydd mae angen llawer mwy o amser i ymdrin ag achosion yn Llys y Goron, hyd yn oed pan fydd rhywun yn pledio'n euog (fel sy'n wir mewn dwy ran o dair o'r achosion).⁴⁴ Mae'n ddrudd hefyd, oherwydd bydd costau'n cynyddu cyn gynted ag y bydd achosion yn cyrraedd Llys y Goron.

⁴² Trosedd naill ffordd yw un y caiff naill ai'r ynadon ymdrin ag ef, neu caiff ddod gerbron barnwr a rheithgor yn Llys y Goron.

⁴³ *Ystadegau Chwarterol y Llysoedd, Ionawr - Mawrth 2012*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2012.

⁴⁴ *Ystadegau Barnwrol ac Ystadegau'r Llysoedd 2011*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2012. [Tabl 4.6].

126. Felly, mae'n iawn ystyried sut y gellid diwygio'r gweithdrefnau hyn i'w gwneud yn fwy tebygol bod achosion sy'n addas ar gyfer dedfrydau sydd o fewn pwerau'r ynadon yn cael eu trafod yn ddiannod yn hytrach nag yn Llys y Goron.
127. Nid diddymu hawl diffynnydd i ddewis cael treial yn Llys y Goron yw hyn. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i amddiffyn treialon gan reithgor, ac nid oes gennym gynlluniau i gyfyngu ar yr hawl i ddewis cael treial o'r fath. Ond mae cryn le i weithredu oherwydd dim ond lleiafrif yr achosion sy'n cyrraedd Llys y Goron sydd yno oherwydd bod y diffynnydd wedi dewis hynny. Traddodir mwyafrif yr achosion oherwydd bod yr ynadon yn gwrthod yr awdurdodaeth, er eu bod o bosibl yn penderfynu hynny o dan o dan ddylanwad dadleuon yr erlyniad a'r amddiffyniad. At yr achosion hyn yr anelir y diwygiadau hyn.
128. Y nod yw sicrhau bod yr achosion llai difrifol yn aros yn llysoedd yr ynadon. Un ffordd bosibl o wneud hyn fyddai cyflwyno trothwy ariannol. Dyma'r sefyllfa eisoes gyda difrod troseddol. Dim ond lle bydd y gwerth y difrod yn is na gwerth penodol (£5,000 ar hyn o bryd) yr ymdrinnir â'r achos yn ddiannod. Mae'r hyn sydd gennym dan sylw'n wahanol, yn yr ystyr hwn: lle y byddai pŵer llysoedd ynadon i draddodi ar gyfer treial yn cael ei ddiddymu mewn achosion sydd o dan y trothwy, gallai'r diffynnydd ei hun ddal i ddewis cael treial yn Llys y Goron.
129. Gallai troseddau megis lladrata a thrin nwyddau wedi'u lladrata fod yn addas ar gyfer y dull hwn, oherwydd bod dedfrydau cyfran uchel (dwy ran o dair neu ragor) o'r diffynnyddion sy'n cael treial yn Llys y Goron yn dod o fewn ystod dedfrydu'r llysoedd ynadon, ac oherwydd y dylai fod modd pennu gwerth ar gyfer yr eiddo sy'n berthnasol i'r trosedd.
130. Canlyniad hyn fyddai na allai llys yr ynadon draddodi'r achos i Lys y Goron rhagor petai gwerth ariannol y trosedd yn is na swm penodol. Ar y llaw arall, byddai gan y diffynnydd yr hawl o hyd i ddewis cael treial yn Llys y Goron.
131. Byddwn yn dal i ddatblygu ein syniadau'n gyffredinol am y ffordd yr ymdrinnir ag achosion naill ffordd, ac, yn benodol, am y potensial i roi trothwy ariannol ar waith yn y math hwn o achos. Byddem yn croesawu barn pobl yn gyffredinol i'n helpu i ddatblygu'r cynnig hwn. Mae manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni i'w gweld ar dudalen 3.

Diwygio gwasanaethau cyhoeddus

132. Mae'r system cyfiawnder troseddol wedi bod yn araf i goleddu manteision dulliau diwygio newydd ac arloesol ond mae pethau'n dechrau newid. Nod talu ar sail canlyniadau yw rhoi cymhellant i bobl ganolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym eisoes yn cynnal cyfres o gynlluniau peilot (a ddisgrifir o baragraff 103 ymlaen uchod) i roi gwahanol fodolau ar brawf. A thrwy gael mwy o gystadleuaeth mewn carchardai, rydym yn dechrau gweld manteision megis llwyddo i leihau'r costau heb aberthu safon. Anogir arloesi drwy bennu pa ganlyniad a ddisgwylir ond gan ganiatáu, ar yr un pryd, fwy o ryddid o ran sut y cyflawnir y canlyniad hwnnw. Rydym am ymestyn cystadleuaeth fwy mewn gwasanaethau cymunedol i droseddwyr, er enghraifft wrth reoli troseddwyr risg-isel yn y gymuned. Rhestrwyd ein cynigion ar gyfer diwygio dedfrydau cymunedol a'r gwasanaeth prawf yn y papurau ymgynghori a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth.⁴⁵
133. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn roi egwyddorion diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar waith mewn agweddau eraill ar y gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae'r heddluoedd eisoes yn defnyddio'r sector preifat i ddarparu staff ar gyfer ystafelloedd rheoli, canolfannau cadw ac ymchwiliadau cefnogol, gan ryddhau swyddogion ar gyfer dyletswyddau'r rheng flaen. Mae nifer o heddluoedd wedi sefydlu, neu'n ystyried sefydlu, partneriaethau gyda'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau cymorth. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn deall yr hyn a ddysgir yn sgil y gwaith cynnar hwn a bod canlyniadau'r dysgu hwnnw ar gael i weddill y system cyfiawnder troseddol.
134. Byddwn yn penderfynu pa rôl y gall cystadleuaeth ei chwarae o ran darparu gwasanaethau yn y llysoedd troseddol. Wrth wneud hynny, byddwn yn gwahaniaethu'n glir rhwng gwasanaethau barnwrol (na fyddent yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer cystadleuaeth) a gwasanaethau anafarnwrol. Bydd angen penderfynu fesul achos a ellid darparu'r gwasanaethau hyn yn fwy effeithlon ac yn fwy cost-effeithiol. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am y gwaith cwmpasu hwn wrth i'r rhaglen *Trawsnewid Cyfiawnder* ddatblygu.

⁴⁵ Gweler troednodiadau 30 a 31.

5. Cyfiawnder effeithlon drwy ddefnyddio technoleg

Crynodeb o'r Bennod

Mae symiau sylweddol wedi cael eu gwastraffu wrth fuddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth (TG) yn y system cyfiawnder troseddol. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae pob cam wedi bod yn araf, yn llawn rhwystrau ac yn sgil hynny, mae ymarferwyr yn dal i ymdrechu'n lew i fanteisio ar dechnolegau sydd wedi bod yn gyffredin ers cenhedlaeth yn y rhan fwyaf o feysydd.

Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn defnyddio atebion technolegol i'r eithaf gan gynnwys:

- estyn defnyddio ffeiliau achos digidol i bob un o'r heddluoedd ac i bob achos yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron
- symud at gael ystafelloedd llys sy'n gwbl ddigidol;
- cynyddu'r defnydd ar dechnoleg fideo mewn achosion; a
- hybu defnyddio technoleg i gysylltu â chymunedau.

Bydd y cynlluniau hyn yn trawsnewid cyfiawnder troseddol gan droi system ddarniog ar bapur yn wasanaeth digidol di-fwlch.

135. Mae gan dechnoleg rôl hollbwysig i'w chwarae'n darparu cyfiawnder troseddol effeithlon. Gwariwyd symiau enfawr ar TG yn yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ystod y degawd diwethaf, yn benodol ar raglen TG y System Cyfiawnder Troseddol ond ni welodd y cyhoedd ddigon o fudd yn sgil y buddsoddiadau sylweddol hyn. Bu blynyddoedd o oedi wrth gyflwyno rhaglenni, gan gynnwys LIBRA ar gyfer llysoedd yr ynadon a system rheoli achosion C-NOMIS ar gyfer rheoli troseddwy, gwariwyd mwy o lawer na'r gyllideb ac ni lwyddwyd i ddarparu'r holl nodweddion a addawyd.
136. Yn sgil penderfyniadau buddsoddi gwael, fe'u rhoddwyd ar waith mewn ffordd ddarniog, gan arwain at systemau nad oeddent yn cydblethu'n dda ar draws yr asiantaethau. Oherwydd hyn, atgyfnerthwyd dulliau ynysig o weithio a chrëwyd gwastraff.
137. Nod ein cynlluniau yw manteisio i'r eithaf ar y buddsoddi sydd wedi bod eisoes, defnyddio'r dechnoleg sydd gennym i gyflymu prosesau, a galluogi cyfiawnder mwy chwim. Ond mae ganddi rôl i chwarae hefyd yn cefnogi elfennau eraill yn ein rhaglen diwygio, er enghraifft, gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy fapiau troseddu lleol ar lein, gwybodaeth am berfformiad llysoedd lleol a darlledu achosion. Bydd gwefannau cyfryngau cymdeithasol newydd hefyd yn gyfle i wasanaethau cyfiawnder troseddol lleol ailgysylltu â'u cymunedau.

138. Ein huchelgais yw bod yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir ac sy'n berthnasol i ymchwiliad yn cael eu cipio ar unwaith, ar ffurf ddigidol, a bod hyn ar fformat y gellir ei rannu ar unwaith ar ffurf electronig â phob partner cyfiawnder troseddol, heb fawr o ymyrryd â llaw. Bydd hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwasanaeth cyfiawnder troseddol sy'n wirioneddol ddi-fwlch ac effeithlon.

Defnyddio technoleg i foderneiddio'r system cyfiawnder troseddol

139. Yn yr adrannau a ganlyn, byddwn yn tynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi'i wneud eisoes o ran cyflwyno technoleg yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys defnyddio ffeiliau achos digidol, a chyswllt fideo, a'r cerrig milltir allweddol yr ydym yn anelu at eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2013. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau bod y diwygiadau hyn yn bwrw gwreiddiau er mwyn i ffeiliau achos digidol a chyswllt fideo gael eu defnyddio'n rheolaidd mewn achosion troseddol.
140. Un datblygiad allweddol fydd defnyddio technoleg er mwyn helpu i newid y ffordd y caiff gwasanaethau cyfiawnder troseddol eu darparu. Byddwn yn defnyddio technoleg i'n helpu i ddatblygu ein prosesau busnes er mwyn i achosion gael eu gweinyddu yn y ffyrdd mwyaf cost effeithiol ac effeithlon, o'r adeg y gwneir y cyhuddiad nes bod yr achos wedi'i gwblhau. Bydd pedair ardal cyfiawnder troseddol, Essex, Cymru, Glannau Mersi a Northumbria yn datblygu syniadau ac yn eu rhoi ar brawf er mwyn cyflwyno prosesau gweinyddu symlach, newydd a gwella safonau ansawdd drwy'r system.

Astudiaeth achos: ffeil achos ddigidol

Roedd gan erlynydd mewn llys ynadon yng Nghymru nifer o achosion wedi'u rhestru ar gyfer y diwrnod hwnnw yn y llys, lle y rhagwelid y byddai'r diffynnydd yn pledio'n euog. Roedd yr erlynydd yn gweithio ar liniadur a allai gysylltu drwy 3G â rhwydwaith GEG.

Yn annisgwyl, plediodd diffynnydd yn ddieuog i drosedd niwed corfforol gwirioneddol ac fe ohiriwyd yr achos wedyn er mwyn pennu dyddiad ar gyfer treial.

Serch hynny, llwyddodd yr erlynydd i anfon ebost at swyddog yr heddlu a fu'n ymwneud â'r achos i ofyn am ragor o wybodaeth, yn enwedig am unrhyw ffotograffau neu dystiolaeth feddygol a allai gynnig rhagor o fanylion am yr anafiadau a gafodd y dioddefwr.

Anfonodd yr heddlu ragor o ffotograffau. Llwyddodd yr erlynydd i'w gweld ar ei liniadur a'u dangos i'r llys ac i dwrnai'r amddiffyn. Ar ôl i dwrnai'r amddiffyn siarad â'r cleient, newidiodd y diffynnydd ei ble gan bledio'n euog i ymosodiad cyffredin. Yn hytrach na bod angen gwrandawriad arall, dedfrydwyd y diffynnydd ar y diwrnod a chwblhau'r achos.

Arbedwyd amser ac ymdrech. Roedd y dyddiad amodol a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad wedyn yn rhydd ar gyfer achos arall. Yn anad dim, ni fu'n rhaid galw'r tystion, yn enwedig y dioddefwr, i roi dystiolaeth yn y treial.

Ffeil Achos Ddigidol

141. Un peth hollbwysig ar gyfer sicrhau cyfiawnder chwim yw ein bod yn symud oddi wrth system ar bapur at system sy'n seiliedig ar ffeiliau achos digidol. Mae gan holl erlynwyr GEG ddyfeisiau tabled bellach sy'n golygu eu bod yn gallu cyflwyno achosion "di-bapur" yn y llys. Erbyn Ebrill 2013:

- bydd yr holl heddluoedd, 43 ohonynt, yn paratoi ffeiliau achos digidol;
- byddwn yn ymestyn gweithio'n ddigidol i holl lysoedd yr ynadon ac i Lys y Goron; a
- bydd ffeiliau achos digidol yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ac â'r canllawiau ar gyfer paratoi ffeiliau achos, gan ddilyn proses sydd wedi'i symleiddio.

Rydym eisoes wedi ... cyflwyno ffeiliau achos digidol

Mae prosesau ar waith erbyn hyn i'r heddlu a'r erlyniad ddefnyddio ffeiliau achos digidol.

Mae'r rhan fwyaf o'r heddluoedd bellach yn gallu trosglwyddo'r rhan fwyaf o wybodaeth am achosion yn electronig, a bydd gweddill yr heddluoedd ar lein erbyn diwedd y flwyddyn. Mae pob un o lysoedd yr ynadon yn gallu derbyn ffeiliau achos digidol gan Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG). Bydd pob achos gwrandawriad cyntaf yn awr yn cael ei gyflwyno i'r llys ar ffurf electronig.

Yn y llys, yn hytrach na gweithio gyda bwndeli papur, mae gan holl adfocadau GEG bellach ddyfais dabled sy'n cynnwys y ffeiliau achos digidol. Gall yr erlynydd anodi'r ffeil a rhoi dalennod arni fel y byddent ar ffeil bapur, gan ei alluogi i gyflwyno'r achos yn effeithiol yn y llys. Gallant lywio drwy fwndel mawr o wybodaeth yn haws o lawer ac yn gyflymach nag y mae modd ei wneud gyda ffeil bapur.

Fideo

142. Mae gan dechnoleg fideo rôl bwysig i'w chwarae'n gwella cynhyrchedd a hygyrchedd y system cyfiawnder troseddol. O'i defnyddio'n iawn, gall y dechnoleg hon ddwyn manteision sylweddol:

- galluogi cynnal achosion yn gyflymach, gwrandawriadau rhagarweiniol yn enwedig;
- osgoi'r angen i rai o'r partion deithio i'r llys, gan arbed amser, ac, yn achos tystion yr heddlu, mae'n golygu eu bod yn gallu dychwelyd at eu dyletswyddau'n gyflym;
- lleihau cost cludo carcharorion, a'r perygl iddynt ddianc;
- helpu i osgoi rhai o'r anawsterau ymarferol sy'n gallu tarfu ar rediad llyfn y busnes, er enghraifft os bydd un o'r partion yn hwyr; a

- sicrhau hwylustod a diogelwch i ddiodefwyr a thystion, yn enwedig os byddant yn byw'n eithaf pell o'r llys lle y cynhelir yr achos, a helpu i sicrhau gwell tystiolaeth i ddiodefwyr a thystion bregus.

Astudiaeth achos: fideo

Yn y porthladdoedd, ac yn nhwnnel y sianel, bydd yn rhaid i heddlu swydd Gaint ymdrin yn rheolaidd â phobl sy'n ceisio ymadael â'r wlad ond sydd dan warant i'w harestio am iddynt beidio ag ymddangos yn y llys. Ni waeth pa mor fân yw'r trosedd, rhaid i'r heddlu arestio'r unigolyn a'i ddwyn i'r llys lle y codwyd y warant. Gall hyn fod yn gostus ac yn draul ar amser, gan fod yn rhaid i'r heddlu drefnu i'r carcharor gael ei gludo i'r llys a gychwynnodd bethau.

Yn ddiweddar, arestiwyd diffynnydd a oedd o dan warant o'r fath yn nhwnnel y sianel yng Nghaint. Cyn dyddiau'r Llys Rhithiol, bydda'r heddlu wedi gorfod trefnu iddo gael ei gludo i Dartford, oddeutu 50 milltir i ffwrdd. Oherwydd ei bod yn hwyr pan gafodd ei arestio, ni fyddai wedi cyrraedd y llys mewn pryd i'w achos gael ei glywed y diwrnod hwnnw, ac o dan amgylchiadau arferol, byddai wedi cael ei gadw dros dro yn un o gelloedd yr heddlu.

Yn hytrach, aethpwyd â'r diffynnydd ar ei union i swyddfa'r heddlu yn Folkestone a thrwy'r Llys Rhithiol, ymddangosodd ar y fideo yn llys ynadon Dartford o fewn oriau i'w arestio. Arbedwyd taith ddrud gyda hebryngwr, ni fu'n rhaid trefnu iddo aros dros nos yng nghelloedd yr heddlu, a rhyddhawyd adnoddau gwerthfawr yr heddlu.

143. Wrth ddatblygu cynlluniau i wireddu manteision technoleg fideo yn y system cyfiawnder troseddol yn y gorffennol, mae'r datblygiadau wedi digwydd yn annibynnol ar ei gilydd, ac nid ydynt yn cydblethu'n dda. Mae rhywfaint o'r offer yn dechrau cyrraedd ddiwedd ei oes fuddiol ac rydym wrthi'n buddsoddi £10 miliwn mewn rhaglen dechnoleg fideo a fydd:
- yn uwchraddio'r seilwaith Cyswllt Fideo rhwng y Carchar a'r Llys, seilwaith sy'n heneiddio, er mwyn sicrhau bod mwy o garcharorion yn gallu cymryd rhan mewn achosion rhagarweiniol drwy fideo;
 - lledaenu'r Cysylltiadau hyn drwy 47 o ganolfannau eraill Llys y Goron er mwyn iddynt fod ar gael ym mhob un ohonynt;
 - dadgomisiynu technoleg cyswllt fideo sy'n heneiddio a ddefnyddir gan ddiodefwyr a thystion, ac, yn ei lle, gosod offer newydd mwy dibynadwy ac offer sy'n cydblethu'n well â mathau eraill o offer fideo; a
 - chreu seilwaith unedig a fydd yn golygu bod holl wahanol fathau o offer fideo a ddefnyddir gan GLITEM yn cydweithio â'i gilydd er mwyn gallu defnyddio pob camera gyda phob sgrin.
144. Disgwylir y bydd y rhaglen hon wedi'i chwblhau erbyn diwedd 2012, ac y bydd yn cynyddu ein capasiti, drwy ddarparu cyfleusterau fideo ym mhob un o ganolfannau Llys y Goron a llysoedd yr ynadon.

Rydym eisoes wedi ... ehangu defnyddio technoleg cyswllt fideo

Rydym wedi gwrthod y ddadl bod 'technoleg dda' yn golygu 'technoleg fawr' ac yn hytrach, rydym wedi ehangu a gwella'r cynlluniau arloesol hynny y gwyddom eu bod yn gweithio orau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys sy'n caniatáu i garcharorion, gan gynnwys carcharorion ar remand, gymryd rhan mewn achosion rhagarweiniol drwy gyswllt fideo. Mae'r cysylltiadau hyn wedi'u gosod mewn dros 140 o lysoedd ynadon, 29 o ganolfannau Llys y Goron ac mewn 63 o garchardai. Rydym wrthi'n ehangu'r ddarpariaeth hon i 47 o safleoedd ychwanegol yn Llys y Goron sy'n golygu y bydd gan bob un o ganolfannau Llys y Goron gyswllt o'r fath, a hynny drwy'r ystâd.

Y Llys Rhithiol, lle y bydd gwrandawiadau cyntaf yn cael eu cynnal drwy gyfrwng cyswllt fideo rhwng gorsaf yr heddlu a'r llys ynadon. Mae hyn yn golygu bod modd cynnal achosion yn gyflymach, ac mae'n golygu bod llai o angen cludo carcharorion a phapurau. Mae'r Llys Rhithiol ar waith yn awr mewn pedair ardal cyfiawnder troseddol wahanol, ac mae data'r asiantaethau'n dangos bod dros 5,000 o wrandawiadau wedi'u cynnal y llynedd drwy'r Llys Rhithiol.

Cyswllt byw i dystion - caiff unrhyw dyst, ac eithrio'r diffynnydd mewn achos troseddol, roi tystiolaeth drwy gyfrwng cyswllt fideo byw, dim ond iddo wneud cais i'r llys. Yn ddiweddar, mae swyddogion yr heddlu wedi dechrau rhoi tystiolaeth mewn treialon drwy gyswllt fideo o orsaf yr heddlu. Mae hyn wedi golygu bod modd iddynt gyflawni dyletswyddau eraill yn hytrach na gorfod sefyllian yn y llys a theithio yn ôl ac ymlaen. Mae gan bump o lysoedd gyswllt byw ar waith mewn tair ardal cyfiawnder troseddol.

Trefniadau Arbennig - mae'r rhain yn caniatáu i dystion bregus (plant, er enghraifft), neu dystion sydd o bosibl o dan fygythiad, roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo. Mae defnyddio fideo'n gyffredin erbyn hyn yn llys y Goron ac yn llysoedd yr ynadon.

145. Credwn, lle bo hynny'n briodol, y dylid defnyddio fideo'n rheolaidd mewn achosion. Mae'n anochel y bydd amgylchiadau weithiau lle y bydd yn rhaid i rywun fod yn bresennol yn y llys i roi tystiolaeth, ac i rywun ei herio'n briodol, ac felly, y farnwriaeth bob tro fydd â'r hawl i wneud y penderfyniad terfynol. Ond, yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y bydd llawer mwy o ddiodefwyr, tystion, diffynnyddion a gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol yn chwarae eu rhan mewn achosion drwy gyfrwng cyswllt fideo.
146. Ar hyn o bryd felly, rydym yn canolbwyntio ar gwblhau'r rhaglen fuddsoddi bresennol, a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio hyd yr eithaf:
 - rydym yn rhoi hyfforddiant gloywi i staff y llysoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall y dechnoleg yn iawn, beth mae'n gallu ei wneud a sut mae'n gweithio;

- rydym wedi symleiddio'r canllawiau i'r llysoedd ar ddefnyddio cyswllt fideo rhwng y carchar a'r llys. Mae hyn yn annog llysoedd a charchardai lleol i lunio cytundebau partneriaeth, gan archwilio sut y byddant yn defnyddio'r cyswllt ar hyn o bryd a chan dargedu problemau hysbys (er enghraifft, mewn llawer o lysoedd, bydd mwy o alw am gyswllt fideo yn ystod eisteddiadau'r bore nag y gellir darparu ar ei gyfer, ond wedyn mae llai o alw yn y prynhawn);
- rydym yn rhoi mwy o bwyslais mewn carchardai ar ddefnyddio fideo lle bynnag y bydd modd ymdrin ag achos fel hyn; ac
- rydym yn ad-drefnu amserau gweithredu er mwyn cydlynu pethau'n well rhwng y llysoedd a'r carchardai, gan sicrhau bod modd cyflawni cymaint ag sy'n bosibl.

Rydym eisoes wedi ... cyhoeddi y caiff cwmni TGCh newydd ei greu ar gyfer yr Heddlu er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref ar 4 Gorffennaf 2011 y byddai'n cefnogi'r heddlu wrth iddynt sefydlu cwmni Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i helpu i fanteisio ar botensial llawn technoleg. Bydd yn cael ei staffio gan arbenigwyr TG, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fydd yn berchen arno, a'i gwsmeriaid fydd yn ei lywio.

Bydd y cwmni'n cynnig cyngor a chanllawiau strategol i heddluoedd ynglŷn â TGCh, a bydd yn caffael, yn gweithredu ac yn rheoli darparu gwasanaethau TGCh cymhleth a rhaglenni trawsnewid busnes yr heddlu ar ran yr heddluoedd. Bydd hefyd yn ymateb i anghenion gweithredu lleol, gan gynnig llwybr i heddluoedd at well gwasanaethau a gwell bargeinion.

Prif egwyddorion y cwmni yw:

- darparu gwell gwerth i luoedd am yr arian y byddant yn ei wario ar TGCh;
- hybu mwy o arloesi yn TGCh yr heddlu, er mwyn i swyddogion allu cael gafael ar y technolegau newydd gorau;
- rhyddhau prif swyddogion rhag gorfod ymwneud yn fanwl â rheoli TGCh a
- darparu gwasanaethau a chynnyrch sy'n cynorthwyo cwsmeriaid wrth iddynt anelu at systemau sy'n rhyngweithio â'i gilydd.

Maes o law, bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn gallu manteisio ar wasanaethau cwmni TGCh yr Heddlu, lle bo hynny'n ymarferol, er budd TG di-fwllch a sicrhau gwell gwerth am arian.

147. Bydd ein diwygiadau'n sbarduno cam nesaf *Rhaglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol*. Dyma'r blaenoriaethau yr ydym yn eu hystyried gyntaf:

- yr heddlu'n cipio tystiolaeth a deunyddiau eraill ar ffurf ddigidol o'r cychwyn cyntaf er mwyn ei rhannu â phartneriaid, er enghraifft drwy

ddefnyddio camerâu fideo cludadwy, gliniaduron a dyfeisiau digidol eraill;

- y potensial i ddefnyddio'r cyfarpar hwn i roi gwybod i weithwyr proffesiynol y rheng flaen sut mae delio â throseddwyr ar y stryd, er enghraifft drwy eu galluogi i wirio pwy yw unigolion, a sicrhau bod unrhyw hanes troseddu blaenorol ar gael yn gyflym iawn;
- ehangu eu defnydd i achosion toramod ac achosion eraill, a fydd yn aml yn dod gerbron y llysoedd heb fawr o rybudd ac felly a fydd yn arbennig o addas ar gyfer paratoi'r achos drwy ddulliau digidol;
- defnyddio'r ffeil achos ddigidol, a'r prosesau sydd wedi'u symleiddio sy'n sail iddi, er mwyn gweld a oes rhagor o gyfleoedd i gyflymu'r achos a gwella'i ansawdd; a
- symud at gael ystafelloedd llys sy'n gwbl ddigidol.

Rydym eisoes wedi ... dechrau symleiddio'r ffordd y byddwn yn cipio gwybodaeth yn ddigidol

Arf newydd i olrhain troseddwyr yw IDIOM. Fe'i datblygwyd gan y Swyddfa Gartref a'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona. Fe'i darperir yn ddi-dâl ac mae ganddo ddefnyddwyr ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae IDIOM yn helpu partneriaid lleol i fonitro troseddu unigolion o dan gynlluniau Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth a threfniadau Rheoli Troseddwyr mewn ffordd Gyfannol.

Dim ond unwaith y bydd angen cofnodi gwybodaeth am droseddwyr. Bob dydd, bydd IDIOM wedyn yn adfer yr holl ddata sy'n gysylltiedig â'r troseddwr hwnnw ynglŷn â'u harestio, eu gwysio a'u barnu'n euog oddi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Ar gyfer pob troseddwr, bydd o leiaf 50 o ddigwyddiadau eraill yn cael eu cysylltu'n awtomatig ac yn ddi-fwlch - heb fod angen i'r heddlu, y llysoedd na phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill wastraffu amser ac ymdrech yn ailgofnodi'r data hyn â llaw.

Mae'r Swyddfa Gartref wrthi'n lledaenu IDIOM drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan ddechrau gydag ystâd y carchardai.

Cam nesaf diwygio'r dechnoleg

148. Rydym yn ystyried dulliau o ehangu defnyddio technoleg ym meysydd busnes cyfiawnder troseddol, dulliau nas ystyriwyd hyd yn hyn, gan geisio manteisio ar y dechnoleg sydd eisoes ar waith. Er enghraifft,
- mae manteision sylweddol ynghlwm wrth gyfuno pŵer prynu asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian. Nid yw hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Bydd yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cydweithio i sicrhau bod eu pŵer prynu'n cael ei gyfuno lle bynnag y bydd hynny'n briodol er mwyn sicrhau'r budd gorau yn ystod y cyfnod buddsoddi nesaf (dros y pedair blynedd nesaf) drwy gwmni TGCh yr Heddlu.

- nid yw'r gwahanol systemau a ddefnyddir gan bartneriaid cyfiawnder troseddol yn gwbl ddi-fwlch eto, ac mewn manau, mae angen ymyrryd â llaw yn hytrach na rhannu gwybodaeth yn awtomatig;
 - mae angen trosi llawer o'r deunyddiau a gesglir mewn ymchwiliad i'w darparu ar fformat digidol y gellir ei rannu â phartneriaid. Gall y broses hon fod yn un llafurus; ac
 - mae rhai mathau o achosion sy'n dod gerbron llysoedd yr ynadon yn rheolaidd (er enghraifft, torri mechnïaeth neu delerau dedfryd ohiriedig) ar hyn o bryd y tu allan i gwmpas gweithio'n ddigidol.
149. Mae'r deddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd yn cyfyngu ar y mathau o achosion lle y gellir defnyddio fideo, ac ar y mathau o bobl sy'n cael cymryd rhan yn yr achos drwy gyswllt fideo. Rydym wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Yn benodol, rydym wedi penderfynu ymestyn defnyddio fideo er mwyn gallu ei ddefnyddio mewn achosion penodol:
- i swyddogion yr heddlu wneud cais i ynadon am warantau chwilio;
 - i'r heddlu wneud ceisiadau am ymestyn y cyfnod ar gyfer cadw rhywun sydd dan amheuaeth yng ngorsaf yr heddlu cyn ei gyhuddo; ac
 - i swyddogion yr heddlu gyfweld â charcharorion. Disgwylir i hyn fod yn arbennig o ddeniadol mewn achosion lle bydd charcharorion wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal lle mae'r heddlu'n ymchwilio i'r trosedd.
150. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth er mwyn gallu cynnal y materion hyn drwy gyswllt fideo cyn gynted ag y bydd amser y Senedd yn ei ganiatáu.

Fframwaith deddfwriaethol

151. Serch hynny, credwn hefyd y dylem ystyried a ellid gwella'r fframwaith deddfwriaethol presennol a'i atgyfnerthu er mwyn iddo hybu mwy o ddefnydd ar fideo mewn achosion troseddol. Mae'r trefniadau presennol wedi datblygu fesul tipyn yma a thraw, ac mae yna ddarpariaeth ar wahân mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer gwahanol fathau o achosion, ac i wahanol bobl gymryd rhan yn yr achosion hynny.
152. Mae ansawdd technoleg fideo yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwella'n gyflym iawn, ac erbyn hyn, mae'n nodwedd fwy cyffredin o lawer o'n ffordd o fyw. Rydym yn ystyried a oes angen diweddarau'r fframwaith deddfwriaethol presennol er mwyn cefnogi ac annog defnyddio fideo'n fwy rheolaidd mewn materion troseddol lle bo hynny er budd cyfiawnder.
153. Byddem yn croesawu sylwadau am hyn. Mae manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni i'w gweld ar dudalen 3.

Defnyddio technoleg i gysylltu â chymunedau

154. O ran defnyddio technoleg yn gefn i'r diwygio, rydym wedi canolbwyntio ar fanteisio ar ei botensial i gyflymu'r broses cyfiawnder troseddol a'i gwneud yn fwy effeithlon. Serch hynny, mae ffonau symudol clyfar, a gwefannau cyfryngau cymdeithasol, yn cynnig cyfleoedd i newid y ffordd y bydd gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn rhyngweithio â dioddefwyr, tystion a'u cymunedau. Bydd y bobl hyn yn disgwyl fwyfwy y gallant ddefnyddio'r rhain i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â gwasanaethau cyfiawnder troseddol.

Rydym eisoes wedi ... dechrau defnyddio cyfryngau newydd i gysylltu â chymunedau

Rydym yn gweld y camau arloesi a ganlyn, sydd eisoes ar y gweill, yn ddulliau o fraenaru'r tir i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy hygyrch i ddiodefwyr a chymunedau;

- defnyddio negeseuon testun, ac ebost, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddiodefwyr a thystion am hynt achos, ac i'w hatgoffa hwy a diffynyddion, am achos a gynhelir cyn bo hir;
- defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol i ddiweddarau gwaith yr asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn amser go iawn. Bydd heddlu Manceinion Fwyaf er enghraifft, yn defnyddio llawer ar Drydar i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am eu gwaith, ac mae Cwnstabiliaeth Avon a Gwlad yr Haf wedi lansio'r cynllun TrackMyCrime, sy'n golygu bod diodefwyr yn gallu dilyn trywydd ymchwiliad i'w trosedd wrth iddo fynd rhagddo; a
- rhoi gwybodaeth am ganlyniad yr achos a phenderfyniadau dedfrydu mewn achosion lleol mewn amser go iawn.

6. Cyfiawnder tryloyw

Crynodeb o'r Bennod

Beirnedir y system cyfiawnder troseddol am fod yn gymhleth, yn bell, ac yn gaeedig.

Yn y bennod hon, rydym yn sôn am ein cynlluniau i wneud trefniadau'r system cyfiawnder troseddol yn llai o ddirgelwch drwy:

- gyhoeddi gwybodaeth berthnasol hawdd cael gafael arni am droseddu lleol, a'i ganlyniadau, am berfformiad gwasanaethau cyfiawnder troseddol lleol, a'r cyfraddau aildroseddu y maent yn llwyddo i'w cyflawni; a
- darlledu'r hyn sy'n digwydd yn y llysoedd.

155. Gall y ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio fod yn ddirgelwch i ddiodefwyr ac i'r cyhoedd ac, yn rhy aml, ni fydd yn llwyddo i ymgysylltu â chymunedau lleol nac adlewyrchu eu blaenoriaethau. I ddiodefwyr y mae ein cyfrifoldeb pennaf, eto i gyd, maent yn teimlo'u bod yn cael eu hanwybyddu gan system sydd i bob golwg wedi'i hadeiladu o gwmpas anghenion troseddwyr a'u cyfreithwyr.

156. Mae ein cynlluniau ni'n bwriadu mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy agor y system cyfiawnder troseddol i'r cyhoedd, gan roi mwy o wybodaeth iddynt ynglŷn â sut mae'r system yn perfformio.

Creu gwasanaethau tryloyw

157. Monopoli yw'r system cyfiawnder troseddol: ni all diodefwyr na'r cyhoedd ddewis cael eu hamddiffyn gan neb arall. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella, yn arloesi ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau, mae'n hollbwysig bod eu dulliau gweithio yn glir ac yn amlwg i'r cyhoedd. Dim ond pan fydd gan y cyhoedd yr wybodaeth iawn a bod cyfle i bobl weld sut mae'r system yn gweithio'n ymarferol y gall ddal y system cyfiawnder troseddol yn atebol.

Rydym eisoes wedi ... sicrhau bod gwybodaeth cyfiawnder troseddol yn haws cael gafael arni

Ym mis Ionawr 2011, lansiodd y Swyddfa Gartref a'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona ddata ar-lein ynglŷn â throseddu ar lefel y stryd ar gyfer pob cymuned yng Nghymru a Lloegr: www.police.uk. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith y cyhoedd: mae'r wefan wedi cael dros 50 miliwn o ymweliadau ers ei lansio. Mae Police.uk erbyn hyn yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau cyfiawnder er mwyn i'r cyhoedd weld beth sy'n digwydd ar ôl i drosedd gael ei riportio yn yr ardal.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i gyhoeddi rhagor o wybodaeth yn rheolaidd am berfformiad lleol y system cyfiawnder troseddol. Yn ystod 2011/12, defnyddiwyd meicrosafle Cyfiawnder Agored (<http://open.justice.gov.uk>) er mwyn darparu gwybodaeth fanwl am y tro cyntaf ynglŷn â:

- chanlyniadau aildroseddu a dedfrydu ar lefel unigolion, heb enwi unigolion;
- data dedfrydu ar gyfer pob llys ynadon a Llys y Goron;
- data prydlondeb ar gyfer llysoedd troseddol, sifil a theulu er mwyn i bobl leol allu gweld faint mae'n ei gymryd i achosion fynd drwy'r system; a
- data aildroseddu ar gyfer pob Ymddiriedolaeth Prawf, awdurdod lleol a sefydliad carcharu.

Yn ogystal â'r data a'r wybodaeth gyd-destun, mae'r safle hefyd yn cynnwys adrannau sy'n cywiro camargraffiadau a gwybodaeth am sut y gall y cyhoedd ymwneud â'r system cyfiawnder yn lleol.

Byddwn yn parhau i ystyried pa wybodaeth arall am droseddu a chyfiawnder y dylem ei chyhoeddi er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall gwaith y system cyfiawnder, a chael gwybod ganddynt sut y gellir gwella perfformiad.

Darlledu achosion llys

158. Mae'r farnwriaeth eisoes yn cymryd camau i wneud achosion llys yn fwy tryloyw drwy gyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu manwl ar y wefan farnwrol - www.judiciary.gov.uk. Gan weithio gyda'r farnwriaeth, rydym am fynd gam ymhellach yn awr, gan agor y llysoedd i'r cyhoedd ehangach a thafu goleuni ar eu gwaith. Dyna pam yr ydym yn deddfu er mwyn dileu'r gwaharddiad ar gamerâu yn y llysoedd er mwyn caniatáu darlledu o dan amgylchiadau cyfyng penodol.

159. Cyhoeddwyd y llynedd y byddem yn caniatáu darlledu dyfarniadau a phenderfyniadau dedfrydu mewn achosion sydd gerbron y Llys Apêl (yr Adran Droseddol a'r Adran Sifil), a chyflwynwyd y ddeddfwriaeth i ganiatáu hynny'n ddiweddar. Fel rheol, bydd achosion yn y Llys Apêl yn ymdrin â materion cymhleth cyfraith neu dystiolaeth ac anaml y bydd dioddefwyr a thystion yn ymddangos i ddarparu tystiolaeth newydd. Oherwydd cymhlethdod materion cyfreithiol yn achosion y Llys Apêl, credwn y byddai caniatáu i ddadleuon adfocadau gael eu darlledu, yn

ogystal â'r dyfarniadau, yn fwy tebygol o wella dealltwriaeth y cyhoedd nag y byddai'r dyfarniadau ar eu pen eu hunain.

160. Nid oes gennym gynlluniau i ganiatáu darlledu treialon cyfan yn Llys y Goron. Ond, dros gyfnod hwy, bwriadwn estyn darlledu i sylwadau dedfrydu barnwyr yn unig yn achosion Llys y Goron. Rydym yn gweithio'n glos gyda'r farnwriaeth i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cyflwyno darlledu o'r Llys Apêl, a byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau maes o law.
161. Wrth inni ddatblygu'r cynlluniau hyn, sylweddolwn y bydd yn hollbwysig sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael eu gwarchod. Ni fyddwn yn cyflwyno dim mesurau a fyddai'n gwneud eu profiad yn y llys yn fwy anodd neu'n eu gwneud yn fwy cyndyn o roi tystiolaeth. Bydd y rheolau presennol ynglŷn â chyfyngiadau adrodd ar achosion yn dal yn berthnasol i ddarlledu (er enghraifft, rheolau ynglŷn â pheidio â datgelu pwy yw'r bobl ifanc sy'n ymwneud ag achos neu ddioddefwyr trais rhywiol, yn ogystal â rheolau i warchod tystion lle bydd gofyn).
162. Ym mhob achos, gan y barnwr y bydd y gair olaf o ran dweud a ddylid darlledu achos neu beidio, a bydd yn gallu atal y ffilmio unrhyw bryd yn ystod yr achos, os bydd yn penderfynu nad yw darlledu'r achos o fudd cyfiawnder rhagor.

Cam nesaf y diwygio i greu gwasanaethau tryloyw

Gwella'r mynediad at wybodaeth

163. Mae nifer o brosiectau arloesol wedi'u datblygu sy'n adeiladu ar sail yr wybodaeth am berfformiad sydd wedi'i chyhoeddi gennym eisoes, megis y wefan genedlaethol sy'n mapio troseddau, www.police.uk, sydd bellach yn dangos i bobl pa gamau a gymerwyd gan yr heddlu a'r llysoedd ar lefel strydoedd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi senarios ychwanegol ar gyfer y pecyn rhyngweithiol ar-lein poblogaidd 'Barnwch Chi' sy'n helpu pobl i ddeall y broses dedfrydu. Caiff y rhain eu lansio yn ystod yr haf (www.ybtj.justice.gov.uk)
164. Mae ardaloedd lleol yn dangos bod modd darparu gwybodaeth am ganlyniadau troseddu a chyfiawnder yn fwy eang. Er enghraifft, mae system Cwnstablfaeth Avon a Gwlad yr Haf 'TrackMyCrime' yn caniatáu i ddioddefwyr ddilyn trywydd eu hymchwiliad ar lein a chynhaliodd Heddlu Gorllewin Canoldir Lloegr 'trydar-a-thon' a oedd yn rhoi canlyniadau llys ynadon Birmingham i'r cyhoedd mewn amser go iawn ar ddiwrnod penodol. Mae Heddlu Swydd Stafford wedi cynnal 'trydar-a-thon' tebyg.
165. Rydym yn awyddus i fynd gam ymhellach eto gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol, megis enwi troseddwyr sydd wedi'u cael yn euog. Gall ardaloedd lleol eisoes gyhoeddi canlyniadau dedfrydu mewn achosion dethol sydd o ddiddordeb lleol, a'r cam nesaf fydd enwi troseddwyr yn fwy cyffredinol, er mwyn i gymunedau allu cael gwybod yn haws pwy

**Cyfiawnder Chwim a Chadarn:
Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol**

sydd wedi'i gael yn euog yn eu llys lleol o droseddau sy'n destun pryder iddynt. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir datblygu Police.uk drwy arbrofi i weld sut y gellid plethu gwefan arloesol Heddlu Gorllewin Swydd Efrog 'Yn y Doc' â Police.uk er mwyn dangos manylion troseddwyd penodol, gan gynnwys eu henw, eu llun a'r ddedfryd a gawsant. Byddwn hefyd yn cefnogi ac yn dysgu yn sgil cynlluniau eraill sy'n archwilio sut mae sicrhau mwy o dryloywder eto a hynny'n gyflymach.

7. Cyfiawnder atebol

Crynodeb o'r Bennod

Un o'r beirniadaethau a glywir amlaf am y system cyfiawnder troseddol yw ei bod yn ddarniog; bod yr asiantaethau'n gweithredu mewn cylchoedd ynysig. Mae asiantaethau wedi canolbwyntio'u perfformiad ar gyrraedd targedau amrwd a orfodir o'r canol gan Whitehall, yn hytrach nag ar y pethau y mae'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n poeni amdanynt.

Yn y bennod hon, sonnir am y camau yr ydym yn eu cymryd i drawsnewid cyfiawnder troseddol a throi system ddarniog o asiantaethau'n sy'n edrych tuag at i mewn, yn wasanaeth cydlynol a di-fwilch sy'n dangos atebolrwydd priodol i gymunedau lleol.

166. Er mwyn diwygio mewn ffordd sy'n cael effaith go iawn ar lawr gwlad, mae gofyn nid yn unig inni ddarparu rhagor o wybodaeth, ond mecanweithiau er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol gan y system cyfiawnder troseddol.

Rydym eisoes wedi ... rhoi'r grym yn ôl i weithwyr proffesiynol er mwyn iddynt ddefnyddio'u crebwyll

Un o'r penderfyniadau cyntaf a wnaeth y Llywodraeth hon wrth ddod i rym oedd datgymalu'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus, a'r targedau a oedd yn sail iddynt. Credwn nad oedd y targedau hyn a orfodid o'r canol yn cynnig y cymhellion cywir er mwyn mynd i'r afael â'r troseddu sy'n poeni cymunedau lleol. Yn waeth na hynny, roeddent yn annog yr asiantaethau cyfiawnder troseddol i ganolbwyntio ar eu targedau hwy eu hunain yn unig, yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth i ddarparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer dioddefwyr a'r cyhoedd.

Mae datgymalu'r targedau hyn wedi dileu un o'r prif rwystrau a wynebid gan weithwyr proffesiynol wrth iddynt gymryd y camau sydd orau yn eu barn hwy er mwyn ymdrin â'r troseddu sydd o'u blaen ac mae wedi caniatáu i asiantaethau ddod at ei gilydd i roi agweddau arloesol at fynd i'r afael â throseddu ar brawf.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

167. Bydd cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n trawsnewid nid yn unig blismona, ond hefyd dirwedd y system cyfiawnder troseddol ehangach. Efen hollbwysig yn hyn yw y caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu hethol yn lleol, ac, a chofio maint ardaloedd yr heddlu lle cânt eu hethol, bydd ganddynt ffordd cyhoeddus sylweddol. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cynnig cyfle i symblu cydweithio ar draws yr asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwneud

gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn fwy tryloyw. Byddwn yn annog Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr heddlu a'u partneriaid yn yr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i gydweithio er mwyn lleihau troseddu ac aildroseddu.

168. Bydd pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yn dal yn gyfrifol am bennu ei blaenoriaethau ei hun a gwarchodir annibyniaeth ac amhleidioldeb y farnwriaeth ac erlynwyr. Mater i Wasanaeth Erlyn y Goron neu i'r heddlu fydd penderfyniadau ynglŷn â chyhuddo, a dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r trosedd (yn unol â *Chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr ynglŷn â Chyhuddo 2011*), a rhywbeth i'r farnwriaeth benderfynu yn ei gylch yn llwyr o hyd fydd penderfyniadau ynglŷn â rheoli achosion unigol.
169. Serch hynny, mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn cynnwys dyletswydd ddwy ffordd i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r cyrff cyfiawnder troseddol gydweithredu o fewn ardaloedd yr heddlu, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud trefniadau ar gyfer darparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol.
170. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn arweinwyr lleol uchel eu proffil a bydd ganddynt y grym i chwyddo llais dioddefwyr a'r gymuned ehangach. Rydym wedi dweud bod gennym ddiddordeb mewn sicrhau bod cymdogaethau'n ymgysylltu â'u gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, drwy gyfarfodydd rhawd) ac wrth gwrs, bydd sut y caiff dioddefwyr eu trin yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd ac er mwyn gallu plismona'n effeithiol.
171. Dyma pam mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol hefyd yn mynnu bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ymgynghori â dioddefwyr wrth bennu blaenoriaethau plismona yn eu hardal leol. Fel y nodwyd yn gynharach yn y Papur Gwyn hwn, rydym wedi cyhoeddi rôl ehangach i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng nghyswllt Gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr, a fydd yn eu galluogi, nid yn unig i hyrwyddo anghenion dioddefwyr ond i gomisiynu'r gwasanaethau gorau'n lleol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Rôl ehangach i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

172. Oherwydd y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn rhoi mwy o lais i bobl leol yn y ffordd y caiff eu cymuned ei phlismona, credwn ei bod yn iawn inni ystyried eu rolau ehangach posibl wrth gefnogi a chydlynu gwaith, nid dim ond ym maes plismona ond o ran lleihau aildroseddu, a fydd o gymorth i sicrhau bod llai o droseddu mewn cymunedau a'u bod yn fwy diogel. Dyna pam yr ydym eisoes yn ystyried sut y gellid datblygu rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eto o fewn y system cyfiawnder troseddol wrth i amser fynd heibio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gomisiynu gwasanaethau Prawf a gwasanaethau Troseddau leuenctid, yn ogystal ag arweiniad clir ar wella'r ffordd y gweinyddir cyfiawnder yn lleol.

173. Bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gylch gorchwyl i leihau troseddu, a bydd ganddynt bwerau comisiynu ac arian i'w galluogi i wneud hyn. Bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gydweithio â'i gilydd a rhoi sylw i faterion trawsffiniol a chenedlaethol, ond, ac mae hyn yn hollbwysig, bydd angen iddynt weithio'n effeithiol gydag arweinwyr lleol eraill yn ardal eu heddlu. Bydd angen i'r trefniadau a sefydlir ganddynt gynnwys dylanwadu ar sut bydd partïon yn blaenoriaethu ac yn cronni eu hadnoddau i ganfod atebion lleol er mwyn datrys problemau a blaenoriaethau lleol. Bydd gwaith partneriaeth cryf, yn ogystal ag archwilio trefniadau gweithio newydd, yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant.
174. Bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu bwerau i ddyfarnu grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff a fydd, yn eu barn hwy, yn cefnogi eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael grantiau cyfun ac fe allant benderfynu eu defnyddio ar brosiectau sy'n cefnogi eu cynlluniau i leihau troseddu. Bydd angen i'r cysylltiadau iawn fod ar waith gyda fframweithiau strategol a chomisiynu lleol eraill a bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yr hawl i gronni arian gyda phartneriaid lleol. Bydd ganddynt yr hyblygrwydd i benderfynu sut mae defnyddio'u hadnoddau i wireddu'r blaenoriaethau sydd yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu, neu i archwilio sut y gellid defnyddio modelau ariannol arloesol, megis talu ar sail canlyniadau neu gyllidebau cymunedol, er mwyn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau lleol eu cynllunio a'u darparu.
175. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n aelodau newydd o'r dirwedd cyfiawnder troseddol lleol a bydd angen iddynt gydweithio â'r asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n bartneriaid iddynt. Arweiniad lleol ar y cyd ar droseddu, cyfiawnder a diogelwch cymunedol fydd yr allwedd i leihau troseddu a gwella canlyniadau i bobl leol. Rhagwelwn y bydd creu rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynnig cyfle i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddefnyddio'u mandad cyhoeddus i sicrhau mwy o eglurder yn y ffordd y bydd partneriaid yn blaenoriaethu ac yn cydweithredu ar draws y system cyfiawnder troseddol.
176. Wrth baratoi ar gyfer y diwygiadau, gwyddom fod llawer o arweinwyr lleol eisoes yn achub ar y cyfle i adolygu'r trefniadau partneriaeth presennol er mwyn symleiddio a mireinio dulliau o gydweithio. Gwaith yr ardaloedd lleol fydd penderfynu ar y trefniadau a fydd yn gweithio orau yn eu hardaloedd, ond credwn fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn sefyllfa dda i arwain diwygio cyfiawnder troseddol, gan weithio gyda'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (gweler isod) er mwyn diwygio pethau ar lawr gwlad.

Gweithio mewn partneriaeth

177. Mae'r system cyfiawnder troseddol wedi bod yn destun diwygio sylweddol, ac yn aml iawn, llywodraeth ganol a oedd yn dweud sut yr oedd pethau i fod. Roedd y dull canolog iawn hwn o fynd ati'n cyfyngu ar allu gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'u crebwyll ac mae wedi

arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan bwysu ar weithwyr proffesiynol i gyflawni targedau penodol yn hytrach nag ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i droseddu a'i achosion.

178. Pan gawsant eu sefydlu gyntaf, ffocws cychwynnol y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol oedd cyflawni'r targedau yn y Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus. Ond, wrth i amser fynd heibio, datblygodd y rhain yn bartneriaethau mwy aeddfed, gan ddarparu fforwm effeithiol i ystyried sut y gallai asiantaethau troseddol wella'r ffordd yr oeddent yn cydweithio i gyflawni eu cydamcanion.
179. Drwy ddileu targedau canolog, credwn y bydd y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gallu canolbwyntio'u hymdrechion ar ddatblygu partneriaethau lleol effeithiol. Credwn y bydd gan y Byrddau rôl hollbwysig i'w chwarae'n darparu cyfiawnder chwim a chadarn ar lawr gwlad.
180. Mae'r Llywodraeth y bendant bod cydweithio effeithiol yn hollbwysig er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer cyfiawnder chwim a chadarn fel y'i disgrifir yn y Papur Gwyn hwn. Nid ydym yn bwriadu pennu beth ddylai strwythur ac aelodaeth y partneriaethau cyfiawnder troseddol lleol fod, gwaith yr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol yw hynny. Ond, rydym yn credu ei bod hi'n hanfodol iddynt gydweithio ar lefel lleol i sicrhau gwell system cyfiawnder troseddol, gan adeiladu ar seiliau cadarn y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Rydym yn disgwyl gweld gwaith partneriaeth o'r fath ym mhob un o ardaloedd yr heddluoedd, gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn chwarae rôl ganolog yn helpu partneriaid lleol i gydweithio yn ogystal â sicrhau mwy o atebolrwydd.
181. Mae'n hollbwysig bod y system cyfiawnder troseddol yn agored ac yn dryloyw, a bod cysylltiad rhyngddi a'r broydd y mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn cynnig datblygu fframwaith canlyniadau lefel-uchel, er mwyn i'r holl bartneriaid cyfiawnder troseddol rannu, a gweithio tuag at yr un amcanion. Ond, ni chredwn fod pennu'n fanwl beth y dylai partneriaethau cyfiawnder troseddol fod yn ei wneud yn gyson â'n hegwyddorion, sef sicrhau mwy o annibyniaeth yn lleol a mwy o atebolrwydd cyhoeddus.
182. Yn hytrach, rydym yn disgwyl i asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol weithio mewn partneriaeth i:
 - ymgynghori â'r gymuned ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt;
 - diffinio'r meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer gwella'u perfformiad, cytuno arnynt a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, dweud pwy sy'n gyfrifol am gyflawni hynny a manylu ynglŷn â sut y byddant yn mesur a lwyddwyd i gyrraedd y nod ai peidio;
 - gwireddu'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud, gan sicrhau gwerth am arian; ac

- adolygu eu perfformiad ac adrodd yn ôl i'r gymuned i ddweud a ydynt wedi cyflawni'r hyn a addawyd, gan ddefnyddio'r dulliau mesur llwyddiant a ddiffiniwyd ganddynt.
183. Os gwneir hyn, bydd cymunedau lleol yn deall yn fwy eglur o lawer sut y gallant ddylanwadu ar ymhle y bydd y system cyfiawnder troseddol lleol yn canolbwyntio'i hadnoddau, ac i ba raddau y mae wedi llwyddo i gyflawni ei blaenoriaethau ei hun.

Astudiaeth achos Rheoli Troseddwyr mewn ffordd Gyfannol

Mae Rheoli Troseddwyr mewn ffordd Gyfannol yn enghraifft dda o sut y gall asiantaethau cyfiawnder troseddol gydweithio'n effeithiol i gyflawni cydamcanion.

Datblygwyd brandio chwyldroadol yn Swydd Gaerhirfryn i estyn egwyddorion y dull partneriaeth gyfannol er mwyn ymdrin â grŵp o droseddwyr nad oedd neb wedi gweithio gyda hwy o'r blaen. Drwy ddadansoddi'r ystadegau, gwelwyd bod grŵp o droseddwyr allweddol nid yn unig yn gyfrifol am lawer iawn o'r troseddau lleol; ond eu bod hefyd yn defnyddio llawer iawn ar wasanaethau cyhoeddus lleol. Amcangyfrifwyd mai costau'r troseddau a gyflawnwyd gan droseddwr dros gyfnod o bedair blynedd oedd oddeutu £73,000, a bod y costau i lysoedd yr ynadon oddeutu £12,000, chostau carcharu'n £74,000 dros bedwar cyfnod gwahanol. Roedd y troseddwr hefyd yn destun ystod eang o ymyriadau, a chost y rheini oedd oddeutu £157,000.

Canolbwyntiodd Timau'r Chwyldro ar droseddwyr a gâi eu rhyddhau ar ôl dedfrydau byr yn y carchar, gyda thimau o dan arweiniad yr heddlu'n cydweithio'n glos â'r gwasanaeth Prawf, darparwyr triniaeth ar gyfer cyffuriau yn ogystal â nifer o asiantaethau statudol ac anstatudol eraill er mwyn cynorthwyo troseddwyr, drwy ddarparu mynediad at y llwybrau adferol a nodwyd er mwyn mynd i'r afael â'u problemau sylfaenol. Er enghraifft, drwy sgrinio anghenion y troseddwr ar y cyd â darparwyr iechyd lleol, sicrhawyd gwasanaethau wedi'u targedu a oedd yn fwy effeithiol. Wrth i lefel aildroseddu droseddwyr cohort y Chwyldro leihau, mae'r costau sy'n gysylltiedig â'u hadsefydlu'n gostwng hefyd, ynghyd â'r costau a ysgwyddid gan y gymdeithas a'r system cyfiawnder troseddol petaent yn troseddu eto. Gwelwyd gostyngiad o 33% yn nifer y troseddau meddiangar difrifol a riportwyd i'r heddlu o'u cymharu â'r nifer yn y pedair blynedd blaenorol.

8. Asesu Effaith ac Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

184. Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli pa mor bwysig yw ystyried effaith y cynlluniau hyn ar wahanol grwpiau. Felly, rydym wedi ystyried effaith yr holl fesurau yn y pecyn yn unol â'n dyletswyddau i grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodol berthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
185. Cyhoeddwyd ein hasesiadau o effaith bosibl y cynigion hyn ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn.⁴⁶
186. Yn yr Aseiad Effaith, a'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb, rydym yn cydnabod bod rhai bylchau yn yr ymchwil a'r dystiolaeth ystadegol yr ydym wedi gallu eu defnyddio i ddeall effaith bosibl ein cynnig. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau eraill a allai lenwi rhai o'r bylchau hyn wrth inni asesu'r sefyllfa eto. Mae manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni i'w gweld ar dudalen 3.

⁴⁶ Gweler troednodyn 24.



Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Drwy'r post, dros y ffôn, y ffacs a'r e-bost

Y Llyfrfa

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

I archebu drwy Lein Uniongyrchol Rad y Senedd 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

e-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Y Siop Lyfrau Seneddol

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

e-bost: bookshop@parliament.uk

Rhyngwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

ISBN 978-0-10-183882-5



9 780101 838825